Ysgol Uwchradd

Llanfair-ym-Muallt

Addysg o Safon ers 1896

YSGOL UWCHRADD LLANFAIR-YM-MUALLT

PROSBECTWS Y CHWECHED DOSBARTH

2011 – 2012

Powys

CYNNWYS

Cwricwlwm Ôl 16 De Powys	3
Pam Astudio yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt?	4
Bagloriaeth Cymru (WBQ)	5
Cynnwys Craidd Bagloriaeth Cymru	6
Sgiliau Hanfodol ac Allweddol	7
Tiwtora a Mentora/Rôl y Tiwtor Personol	8
Disgwyliadau – rôl y myfyriwr	9
Dewis pynciau	10
UCAS a Mynediad i Addysg Uwch	13
Gyrfaoedd a Chyfarwyddyd/Ymsefydlu	14
Asesu	15
CELF A DYLUNIO	16
BIOLEG	18
CEMEG	19
ASTUDIAETHAU CYFATHREBU A DIWYLLIANT	20
DYLUNIO A THECHNOLEG	21
DRAMA A CHELFYDDYDAU THEATR	24
IAITH A LLENYDDIAETH SAESNEG	25
FFRANGEG AC ALMAENEG	26
DAEARYDDIAETH	28
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL	30
HANES	32
LLETYGARWCH	34
MATHEMATEG	36
CERDDORIAETH	37
TECHNOLEG CERDDORIAETH	39
ADDYSG GORFFOROL	40
FFISEG	41
ADDYSG GREFYDDOL	42
CYMRAEG AIL IAITH	44
CYMRAEG IAITH GYNTAF	45
Y LLYFRGELL	46
ADDYSG GYSYLLTIEDIG Â GWAITH	48

Cwricwlwm Ôl 16 Cydweithiol De Powys

Rydych yn dod i ddiwedd eich addysg orfodol ac yn dechrau cyfnod cyffrous newydd yn eich bywyd. Y penderfyniadau y byddwch yn eu gwneud dros y misoedd nesaf fydd rhai o'r pwysicaf, a bydd eu heffaith yn para trwy eich bywyd. Bydd rhai ohonoch yn ei gael yn hawdd i wneud y penderfyniadau hyn – efallai eich bod yn gwybod yn union beth sydd angen i chi ei wneud yn y dyfodol. Bydd eraill yn cael llawer mwy o drafferth.

Mae yna dri phrif lwybr y gallwch eu cymryd ym mis Medi 2011:

1. Gallwch aros yn yr ysgol a dilyn cyrsiau AS, A2 a BTEC;
2. Gallwch adael yr ysgol a chymryd cwrs llawn amser mewn coleg, neu yn olaf;
3. Gallwch chwilio am waith, yn ddelfrydol gydag elfen o hyfforddiant wedi'i gynnwys.

Bydd Rhion Jenkins (Ymgynghorydd Gyrfaoedd) yn eich helpu i benderfynu pa lwybrau fydd yn eich helpu i gyflawni eich amcanion.

Fel rhan o foderneiddio'r ddarpariaeth addysg ym Mhowys, mae'r chwe ysgol uwchradd (Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Aberhonddu, Gwernyfed, Crughywel a Maesydderwen), ynghyd â Choleg Powys wedi uno i gynnig amrywiaeth llawer mwy eang o gyrsiau i'w dilyn na'r hyn oedd ar gael yn y gorffennol.

Mae hyn yn golygu y gallech ymuno â'r Chweched Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, gan aros mewn ysgol lle rydych yn adnabod y staff a'ch cyd-ddisgyblion, tra'n cael mynediad i gyrsiau mewn canolfannau eraill.

Mae'n debyg y bydd y Blociau Opsiynau yn seiliedig ar y trefniant isod:

	Dydd Llun	**Dydd Mawrth**	**Dydd Mercher**	**Dydd Iau**	**Dydd Gwener**
9.00 10.00	Opsiwn A	Opsiwn D	Opsiwn C	Opsiwn E	Opsiwn B
10.00 11.00	Opsiwn A	Opsiwn D	Opsiwn C	Opsiwn E	Opsiwn B
Egwyl					
11.20 12.20	Amser ar gyfer teithio, astudio a WBQ				
Cinio					
1.15 2.15	Opsiwn B	Opsiwn E	Opsiwn A	Opsiwn D	Opsiwn C
2.15 3.15	Opsiwn B	Opsiwn E	Opsiwn A	Opsiwn D	Opsiwn C

Ym mis Mawrth 2011, byddwch yn derbyn prosbectws Ôl-16 De Powys, lle bydd pob un o'r chwe ysgol a Choleg Powys yn cynnig 5 bloc opsiynau. Yna, gallwch ddewis Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt fel eich "ysgol gartref" tra'n dewis cyrsiau mewn unrhyw ysgol arall neu Goleg Powys.

Pam Astudio yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt?

Rydych yn dechrau yn y Chweched Dosbarth mewn cyfnod o newid dramatig: bydd arddull ac amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael yn galluogi i chi gynllunio rhaglen astudio unigryw. Yn ystod Blwyddyn 12, byddwch yn astudio rhaglen graidd y WBQ a chyrsiau AS. Ar ddiwedd Blwyddyn 12, byddwch yn dewis eich cyrsiau A2 ar gyfer Blwyddyn 13; dewisiadau yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiad.

Mae rhaglen y WBQ wedi'i gynllunio i'w wneud yn haws i drosglwyddo o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12 ac o'r Chweched Dosbarth i Addysg Uwch neu gyflogaeth. Fel ysgol, ac yn enwedig staff y Chweched Dosbarth, rydym wedi buddsoddi llawer o amser i sicrhau fod y cyrsiau a'r arddull dysgu yn fwyaf addas i'ch anghenion chi. Byddwn yn eich cefnogi ac yn eich cynghori trwy'r misoedd i ddod wrth i chi ddewis eich cyrsiau, a byddwn yn parhau i'ch cefnogi trwy'ch astudiaethau yn y Chweched Dosbarth.

Y peth da am astudio ar gyfer cyrsiau lefel AS a lefel A yw ei fod yn fwy pleserus nag astudio TGAU (neu fe ddylai fod). Pam? Am nifer o resymau:

- Mae gennych fwy o ddewis ar lefel AS ac A oherwydd nid yw'r llywodraeth yn mynnu eich bod yn astudio nifer o bynciau gorfodol.
- Mae gennych chi fwy o amser i'w roi i bob pwnc.
- Gallwch astudio pob pwnc yn ddyfnach, gan olygu y bydd yr astudio'n fwy boddhaol.
- Mae cymwysterau AS a lefel A yn cael eu rhannu i nifer o "unedau" unigol, y gellir eu sefyll ar wahân ac ar wahanol gamau o'r cwrs.
- Gallwch ailsefyll unedau, felly gall arholiadau fod yn llai o straen.

Mae'r ffaith fod gennych lawer mwy o ddewis ar gyfer lefel AS ac A yn golygu y bydd angen i chi ystyried pa bynciau yr ydych am eu hastudio yn ofalus iawn. Os byddwch yn gwneud y dewisiadau anghywir, gall effeithio ar eich cyfleoedd i gael gwaith neu le yn y brifysgol, eich mwynhad o'ch astudiaethau a'r graddau y byddwch yn eu hennill.

Bydd y wybodaeth yn y prosbectws hwn yn eich helpu i ddelio gyda'r penderfyniadau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dewis cymwysterau lefel AS ac A. Byddwch yn mwynhau eich astudiaethau lefel AS ac A cymaint yn fwy os byddwch yn dewis y pynciau iawn i chi.

Bydd y Chweched Dosbarth yn gyfnod cyffrous a heriol o'ch bywyd, ac rwy'n edrych ymlaen atoch yn ymuno â ni ym mis Medi 2011. Yn y cyfamser, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi ar gyfer eich arholiadau TGAU yr haf hwn.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen ein prosbectws Chweched Dosbarth. Rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi amrywiaeth eang o wybodaeth i chi am astudio yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch mewn perthynas ag astudio yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Elin Non Ennis
Pennaeth y Chweched Dosbarth

Ionawr 2011

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

Shân Davies – Pennaeth
Elin Non Ennis – Pennaeth y Chweched Dosbarth
Ionwen Spowage – Pennaeth Cynorthwyol
Amy Griffiths – WBQ

Rhif Ffôn: 01982 553292.
Ffacs: 01982 553825
E-bost: admin@builth-hs.powys.sch.uk

Bagloriaeth Cymru (WBQ)

(Mae mwy o fanylion am y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gael ar www.wbq.org.uk)

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster trosfwaol a fydd yn rhoi amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau i fyfyrwyr. Cynlluniwyd y cymhwyster i:

- Roi amrywiaeth eang o brofiadau i fyfyrwyr a fydd yn eu paratoi ar gyfer y byd modern;
- Fod ar gael ac yn hygyrch i'r holl fyfyrwyr ôl-16;
- Fod yn ddeniadol i fyfyrwyr, eu rhieni ac athrawon;
- **Ddiogelu diddordebau myfyrwyr** trwy fod yn rhannol seiliedig ar gymwysterau presennol.

Nodau

Nodau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw:

- Ehangu cyfranogiad, hyrwyddo mynediad ac annog cwblhau addysg ôl-16;
- Hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar;
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y ffordd y mae cyrsiau galwedigaethol ac academaidd yn cael eu hystyried, a mabwysiadu dull galwedigaethol tuag at ddysgu;
- Galluogi i fyfyrwyr o bob gallu symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- Darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau cwricwlaidd i'r holl fyfyrwyr ôl-16 yng Nghymru;
- Hyrwyddo dysgu trwy wneud a'r defnydd o dechnolegau newydd i wneud dysgu yn fwy effeithiol;
- Hyrwyddo agweddau a fydd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer dysgu gydol oes.

Amcanion

Amcanion eang y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw:

- Darparu amrywiaeth o arddulliau addysgu, dysgu ac asesu a fydd yn ysgogi myfyrwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu;
- Sicrhau fod yr holl fyfyrwyr yn datblygu sgiliau allweddol a fydd yn eu galluogi i symud ymlaen mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- Datblygu mewn myfyrwyr y wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â'u dewisiadau Opsiynau;
- Galluogi i fyfyrwyr gymryd rheolaeth o'u dysgu a'u datblygiad eu hunain;
- Galluogi i fyfyrwyr gymryd eu lle fel dinasyddion mewn cymdeithas amrywiol;
- Galluogi i fyfyrwyr gymryd rhan mewn addysg gysylltiedig â gwaith;
- Datblygu ymwybyddiaeth o fyw mewn Cymru Ewrop a'r Byd modern ym mhob myfyriwr.

Rhesymeg/Cyd-destun

Bydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn caniatáu symud ymlaen i gyfnodau addysg a hyfforddiant dilynol.

Bydd llwyddo i gwblhau'r cwrs Bagloriaeth Cymru yn ennill 120 pwynt tariff (gradd A). Mae nifer cynyddol o Sefydliadau Addysg Uwch yn derbyn y WBQ.

Cynnwys Craidd y WBQ

Mae'r Cymhwyster yn cynnwys astudiaethau **Craidd** a rhaglenni **Opsiynau** (cyrsiau TAG AS/A2 y myfyriwr). Rhan wahanredol y Cymhwyster yw'r Craidd, y mae ei gydrannau yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu a chaffael tystiolaeth o gyrhaeddiad yn y sgiliau allweddol sy'n digwydd yn naturiol. Cydrannau'r Craidd yw:

- **Sgiliau Hanfodol ac Allweddol**, bydd datblygiad sgiliau Hanfodol ac Allweddol yn rhan bwysig o raglen pob myfyriwr, trwy gynllunio yn y cydrannau Craidd ac o fewn rhaglenni sgiliau allweddol penodol, a thrwy gyfeirio yn yr Opsiynau, gan arwain at asesu ac ardystio;
- **Cymru, Ewrop a'r Byd**, lle mae'r ffocws ar faterion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru, gan eu gosod yng nghyd-destun Ewrop (yn cynnwys y DG) a'r byd ehangach. Mae'r cydran hwn yn cynnwys modiwl iaith;
- **Addysg gysylltiedig â gwaith**, sy'n gwella'r ddealltwriaeth o fyd gwaith, pwysigrwydd menter ac entrepreneuriaeth ac yn cyfrannu at addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Mae'n ofynnol y bydd yr holl fyfyrwyr yn gweithio gyda chyflogwyr ac yn cyfrannu at weithgaredd menter tîm;
- **Addysg bersonol a chymdeithasol**, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, cynhwysiant cymdeithasol, a datblygu cynaladwy, a bydd yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang ac iechyd da. Mae yna elfen cyfranogiad cymunedol ar gyfer yr holl fyfyrwyr.

Bydd rhaglen pob myfyriwr yn cael ei gytuno gyda, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan, y Tiwtor Personol. Bydd y Craidd yn cynnwys 270 awr o amser dysgu dan arweiniad, fel y nodir isod:

	Rhaglen Blwyddyn 12	**Gweithgareddau cyfoethogi/eraill**
Sgiliau Allweddol: Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, TGCh, Datrys Problemau, Gweithio gyda Phobl Eraill, Gwella eu Dysgu a'u Perfformiad eu hunain	60 awr	
Cymru, Ewrop a'r Byd, yn cynnwys y modiwl iaith	60 awr	Modiwl Iaith 20 awr 10 awr ar gyfer yr Ymchwiliad Unigol
Addysg Gysylltiedig â Gwaith	30 awr	Profiad Gwaith 30 awr
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	30 awr	Cyfranogiad Cymunedol 30 awr
Amser Tiwtorial/Cefnogaeth Mentor – tiwtorial grŵp wythnosol, tiwtorial un-i-un o leiaf pob hanner tymor		

Sgiliau Hanfodol ac Allweddol

Sgiliau Hanfodol/Allweddol yw sgiliau y mae eu hangen yn aml ar gyfer llwyddiant mewn amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, gwaith a bywyd yn gyffredinol. Mae'r Sgiliau Hanfodol/Allweddol yn anelu i ddatblygu a chydnabod gallu myfyrwyr i gymhwyso'r sgiliau hyn mewn ffyrdd sy'n briodol i gyd-destunau gwahanol er mwyn gwella ansawdd dysgu a pherfformiad. Fe'u bwriedir i bawb, o fyfyrwyr yn yr ysgol i brif weithredwyr mewn cwmnïau mawr. Mae Sgiliau Hanfodol/Allweddol yn ffurfio rhan o raglen graidd y WBQ.

⇒ Mae Sgiliau Hanfodol/Allweddol yn bwysig mewn dysgu oherwydd fe allant eich helpu i ffocysu ar beth rydych yn dysgu a sut yr ydych yn dysgu fel y gallwch gael gwell canlyniadau.

⇒ Mae Sgiliau Hanfodol/Allweddol yn bwysig mewn gwaith oherwydd fe allant helpu aelodau staff i fod yn hyblyg yn y gwaith y maent yn ei wneud. Mae cyflogwyr yn edrych am Sgiliau Hanfodol/Allweddol wrth recriwtio a dyrchafu pobl. Mae'r Sgiliau Hanfodol/Allweddol hyn yn berthnasol i bob lefel o sefydliad yn ogystal â hunangyflogaeth.

⇒ Mae Sgiliau Hanfodol/Allweddol yn bwysig mewn bywyd yn gyffredinol oherwydd gallant eich helpu i drefnu eich hunain, goresgyn problemau a gyrru ymlaen gyda phobl.

Mae yna chwe maes Sgiliau Hanfodol/Allweddol:

- Cyfathrebu
- Cymhwyso Rhif
- Technoleg Gwybodaeth
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Dysgu a Pherfformiad
- Datrys Problemau

Unedau a lefelau sgiliau Hanfodol/Allweddol

Bydd angen i fyfyrwyr ennill pob un o'r chwech sgil Hanfodol/Allweddol er mwyn cwrdd â gofynion y WBQ. Bydd angen iddynt ennill o leiaf tri sgil allweddol ar lefel 3, yn cynnwys un o'r "tri cyntaf", sef Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif neu Dechnoleg Gwybodaeth a tri ar lefel 2.

Mae pob sgil allweddol yn cael ei asesu trwy bortffolio o dystiolaeth. Mae ennill y Sgiliau Hanfodol/Allweddol hyn ar lefelau 2-4 yn cael ei gydnabod gan UCAS ar gyfer mynediad i Addysg Uwch.

Creu Portffolios

Bydd y system tiwtorial personol yn canolbwyntio ar greu Cynllun Gweithredu Unigol, a bydd yn cymryd y myfyriwr trwy'r sgil allweddol o Wella eu Dysgu a'u Perfformiad eu Hunain. Yn ystod cyfnodau hwyrach Blwyddyn 12 (Mai – Gorffennaf), bydd y ffocws yn symud tuag at Ddatrys Problemau, wrth i fyfyrwyr ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael iddynt ar ôl y Chweched Dosbarth.

Bydd y Tiwtorial Grŵp, Cyfranogiad Cymunedol, Menter Tîm a Gweithio gyda Chyflogwr yn cynnig digon o gyfleoedd i ennill y sgil allweddol o Weithio gydag Eraill.

Gellir tynnu tystiolaeth ar gyfer y portffolios Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Thechnoleg Gwybodaeth o'r Craidd a'r Opsiynau o fewn y WBQ.

Bydd y Tiwtor Personol a'r Cydlynydd Sgiliau Hanfodol/Allweddol ynghyd â thiwtoriaid pynciau yn cynghori ac yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu portffolios.

Tiwtora a Mentora

Bydd rhaid i chi gael eich amserlen bersonol gydag amser wedi'i neilltuo i chi weithio ar eich pen eich hun (Cyfnodau Astudio) a gyda'ch grŵp cymheiriaid (Tiwtorialau Grŵp).

Bydd y staff canlynol yn gweithio gyda chi ac yn darparu cymorth academaidd a bugeiliol:

- **Tiwtor Personol**
- **Tiwtor Pwnc**
- **Cydlynydd WBQ**
- **Ymgynghorydd Gyrfaoedd Cymru Powys**
- **Pennaeth y Chweched Dosbarth**

Rôl y Tiwtor Personol

Bydd Tiwtoriaid Personol yn cefnogi myfyrwyr. Byddant yn gweithio gyda myfyrwyr i gynhyrchu a gweithredu **Cynllun Gweithredu Unigol.** Bydd y Tiwtor Personol yn gyfrifol am:

- Sefydlu perthynas ddysgu gyda'r myfyriwr;
- Cynghori'r myfyriwr ar ei ddewisiadau/rhaglenni Craidd ac Opsiynau;
- Agwedd, lles a hunan-barch cyffredinol y myfyriwr.

Mae'r Tiwtor Personol yn ganolog i lwyddiant y WBQ ac mae tiwtoriaid Blwyddyn 12 wedi'u hyfforddi i ddeall gofynion proffesiynol y rôl, yn cynnwys y sgiliau i ddelio gyda materion bugeiliol.

Bydd Tiwtorial Grŵp Tiwtor wythnosol. Bydd ffocws y sesiynau grŵp hyn yn amrywio yn ystod gwahanol gyfnodau o raglen y myfyriwr. Er enghraifft, yn ystod ymsefydlu, efallai y bydd yn ddefnyddiol i fyfyrwyr drafod eu pryderon am y cwrs mewn grwpiau bach, ac i ddarganfod fod pryderon tebyg gan eraill. Yn ddiweddarach yn y rhaglen, bydd y tiwtorial grŵp yn ystyried materion fel:

- Sicrhau fod myfyrwyr yn teimlo'n fodlon fod eu haddysg yn symud ymlaen mewn amgylchedd cyffrous a diogel.
- Amlygu disgwyliadau safonau ymddygiad uchel, gan bwysleisio yr ymdrinnir ag ymddygiad amhriodol yn gyflym.
- Datblygu sgiliau astudio, gan gynnwys amrywiaeth o arddulliau dysgu sy'n effeithiol yn bersonol.
- Technegau rheoli amser.
- Technegau adolygu.
- Technegau arholiad.
- Cyngor Gyrfaoedd, yn cynnwys mewnbwn arbenigol, e.e. Gyrfa Cymru Powys.
- Paratoi ar gyfer mynediad i Addysg Uwch – ffurflenni UCAS.
- Paratoi ar gyfer Byd Gwaith e.e. ysgrifennu CV, paratoi ar gyfer cyfweliadau swyddi.

Disgwyliadau – rôl y myfyriwr

Myfyrwyr fyddwch chi, yn hytrach na disgyblion, a byddwch yn gallu cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun, gosod eich amcanion eich hun, trafod eich asesu a dod yn fwy annibynnol a disgybledig. Disgwylir rhai pethau ohonoch chi: er enghraifft gwisgo'n briodol, bod ar amser ac ymddwyn mewn modd aeddfed, synhwyrol.

Fel myfyriwr Chweched Dosbarth, rydych yn "fodel rôl" ar gyfer disgyblion iau yn yr ysgol, felly mewn gwirionedd, rydych "ar ddyletswydd" pan rydych yn cerdded o amgylch yr ysgol. Eich cyfrifoldeb chi yw hi i weithredu pan fyddwch yn gweld ymddygiad annerbyniol, ac i adrodd am unrhyw ymddygiad anaddas i aelod staff yn syth.

Byddwch yn profi mwy o ryddid. Mae'r rhyddid hwn yn dod â chyfrifoldeb am eich materion eich hunain, ac yn benodol, yr angen i gydbwyso gwaith a gweithgareddau hamdden mewn modd effeithiol yn yr ysgol ac adref.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mynd ymlaen i gyflawni'r holl amcanion personol ac academaidd hyn, ac y byddwch yn dod â hunanfoddhad, hapusrwydd a chlod i chi, eich teulu a'r ysgol.

Y Diwrnod Ysgol
Bydd y diwrnod ysgol yn dechrau am 8.45am gyda chofrestru. Dylid defnyddio'r amser hwn ar gyfer trafod gyda'ch tiwtor, cynllunio gwaith gyda'ch grŵp tiwtor, dysgu iaith, diweddaru llyfrau log ayb. Mae presenoldeb o 8.45am i 3.15pm yn hanfodol.

Trefniadau gweinyddu
Os yn bosibl, dylai unrhyw fyfyriwr sy'n sâl ffonio'r swyddfa a gadael neges ar gyfer eu tiwtor. Hefyd, dylid hysbysu tiwtoriaid am unrhyw apwyntiad, absenoldeb wedi'i gynllunio ayb. Bydd y tiwtor yn rhoi gwybod i gydlynydd y WBQ/Pennaeth y Chweched Dosbarth/Tiwtor Pwnc fel y bo'n briodol.

Rhaid i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth arwyddo allan os oes angen iddynt fynychu apwyntiadau, lleoliadau Cyfranogiad Cymunedol, ayb.

Gwisg
Nid oes raid i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth wisgo gwisg ysgol. Fodd bynnag, dylech gofio mai amgylchedd gweithio yw hwn, felly rhaid i chi wisgo'n briodol. Nid yw dillad y tu allan a hetiau yn dderbyniol y tu mewn i'r adeilad. Mae Tiwtoriaid Personol a Phennaeth y Chweched Dosbarth yn monitro safonau, a bydd unrhyw fyfyrwyr sydd ddim yn gwisgo'n briodol yn cael eu cynghori i wella eu golwg.

Dewis pynciau – beth y mae'n rhaid i chi ei ystyried?

Dylech ystyried y pwyntiau canlynol cyn gwneud eich dewisiadau yn y Chweched Dosbarth.

- Anogir mynediad agored i'r Chweched Dosbarth, ond bydd yr agwedd tuag at waith a disgyblaeth a ddangoswyd gennych yn ystod eich pum mlynedd blaenorol yn yr ysgol yn 'Allweddol'.

- Byddwch yn treulio o leiaf 15 gwers yr wythnos ar eich astudiaethau (yn seiliedig ar astudio 3 TAG AS). Bydd y cyfnodau sydd ar ôl yn cael eu defnyddio ar gyfer y Craidd WBQ ac **Astudiaethau Preifat.**

- Bydd angen i chi ddewis pa fath o gwrs sydd fwyaf addas i chi ei ddilyn. Rhaid i chi ystyried eich cryfderau personol mewn perthynas â'ch astudiaethau; a allwch chi weithio'n annibynnol neu a yw'n well gennych gael canllawiau llym? Rhaid i chi ymchwilio'r gwahanol arddulliau dysgu sy'n gysylltiedig â chyrsiau AS a phenderfynnu pa fath sydd fwyaf priodol ar gyfer eich anghenion.

- Fe'ch anogir i dreulio oddeutu 15 awr yr wythnos ar astudio yn y cartref. Bydd hyn yn cynnwys tasgau a osodir gan eich tiwtoriaid, darllen cyffredinol yn ymwneud â'ch pwnc a pharatoi.

- Wrth ddewis pynciau i'w hastudio yn y Chweched Dosbarth, mae'n hanfodol eich bod yn gwneud y dewis cywir. Dewiswch bynciau sydd o ddiddordeb i chi ac yr ydych yn mwynhau eu hastudio. Fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor gan eich teulu, tiwtoriaid, Gyrfa Cymru Powys a chyn-fyfyrwyr am eich dewis o bynciau i'w hastudio. Bydd rhai o'r pynciau sy'n cael eu cynnig yn y Chweched Dosbarth yn hollol newydd i chi, ac efallai y bydd pynciau cyfarwydd yn cael eu haddysgu mewn ffordd wahanol; peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod beth fydd yn gysylltiedig.

- Os ydych yn gwybod yn bendant pa yrfa yr ydych chi eisiau ei ddilyn, dylech ymchwilio pa bynciau y mae angen i chi eu hastudio er mwyn cyflawni eich nod. **Mae yna ofynion mynediad penodol ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau meddygol a milfeddygol, yn ogystal â rhai cyrsiau gwyddoniaeth a pheirianneg, i enwi dim ond rhai.** Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud y dewisiadau iawn nawr – siaradwch gyda Mrs. Elin Non Ennis am fanylion.

- Anogir cyfuniad o bynciau AS ym Mlwyddyn 12. **Mae'n debyg y bydd 3 AS yn briodol i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ystod y cam hwn**. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn parhau gyda'r unedau A2 sydd eu hangen i gyflawni'r wobr Lefel A ym Mlwyddyn 13. Rhaid i'r myfyrwyr hynny sydd eisiau astudio 4/5 AS ym Mlwyddyn 12 gofio y byddai hyn yn lawer iawn o waith, ac ychydig iawn o Gyfnodau Astudio Preifat y buasent yn eu cael yn yr ysgol.

Y cyngor cyffredinol gorau yw i ddewis pynciau yr ydych yn eu mwynhau, ac yr ydych yn teimlo y gallwch eu gwneud yn dda: bydd yr athrawon sy'n eich adnabod orau yn gallu helpu gyda'r penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, mae yna rai cyfuniadau pynciau sy'n ddefnyddiol iawn, neu hyd yn oed yn hanfodol, ar gyfer rhai cyrsiau.

Mae'r tabl isod yn rhestru cyfuniadau pynciau posibl, mewn perthynas â nifer o gyrsiau addysg uwch. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob opsiwn, ac mae rhai sefydliadau yn fwy hyblyg nag eraill. Siaradwch gyda Mrs. Elin Non Ennis am fwy o wybodaeth.

Hefyd, efallai y bydd gwefan UCAS yn ddefnyddiol: www.ucas.com. Mae'r safle'n cysylltu gyda'r holl Sefydliadau Addysg Uwch.

	HANFODOL	DYMUNOL IAWN	DEFNYDDIOL
Pensaernïaeth		Iaith a phwnc dyniaethol	Llenyddiaeth Saesneg, Hanes
Celf	Celf	Dylunio Cynnyrch	
Astudiaethau Busnes		Busnes	TGCh, Iaith Fodern
Economeg		Mathemateg ac Economeg	
Addysg	Safon Uwch o fewn yr Arbenigedd Pwnc		
Saesneg	Llenyddiaeth Saesneg		Iaith Fodern, Hanes
Daearyddiaeth		Daearyddiaeth	
Hanes		Hanes	
Hanes Celf	1/2 yn bynciau celfyddyd	Iaith Fodern, Hanes neu Hanes Celf	
Y Gyfraith			Pynciau Celfyddyd neu Bynciau Gwyddonol, neu gyfuniad o'r Celfyddydau a'r Pynciau Gwyddonol
Ieithoedd Modern	Un Iaith Fodern		Ail Iaith Fodern
Cerddoriaeth	Cerddoriaeth	Iaith Ewropeaidd	Unrhyw bwnc: Saesneg, Ieithoedd, Hanes, Mathemateg, Ffiseg
Nyrsio		Bioleg	Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cemeg
Athroniaeth			Cyfuniad o bynciau Celfyddyd a Phynciau Gwyddonol
Dylunio		Celf, Dylunio Cynnyrch, TGCh	Mathemateg, Ffiseg, Electroneg
Seicoleg		Bioleg	
Y Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol			Mathemateg, pwnc o fewn y Gwyddorau Cymdeithasol, cyfuniad o'r celfyddydau/gwyddorau
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol		Un pwnc allan o : Saesneg, Astudiaethau Crefyddol, Hanes, Ieithoedd, UG mewn Iaith os nad Safon Uwch	
Peirianneg Gemegol	Cemeg	Mathemateg a Ffiseg	

Cyfrifiadureg	Mathemateg	Gwyddor Ffisegol	Unrhyw bwnc: TGCh, Electroneg, Saesneg, Iaith Fodern
Peirianneg	Mathemateg a Ffiseg		Cemeg, TGCh, Dylunio a Thechnoleg, Economeg, Electroneg; byddai iaith fodern yn gwneud pwnc cyferbyniol da
Mathemateg	Mathemateg	Ffiseg	
Meddygaeth	Cemeg gydag un ai Mathemateg neu Ffiseg neu Fioleg	Pwnc gwyddonol ychwanegol neu Fathemateg	
Milfeddygaeth	Cemeg gydag un ai, Mathemateg neu Ffiseg neu Fioleg	Pwnc gwyddonol ychwanegol neu Fathemateg	
Y Gwyddorau Naturiol	Dau o blith: Mathemateg, Ffiseg, Cemeg neu Fioleg	Pwnc gwyddonol ychwanegol neu Fathemateg	
Cemeg	Cemeg	Mathemateg	Bioleg, Ffiseg
Daeareg		Dau o blith: Bioleg, Cemeg, Ffiseg	Unrhyw un o blith Bioleg, Cemeg, Mathemateg, Ffiseg
Gwyddor Defnyddiau a Mwynau	Mathemateg a Ffiseg		Cemeg
Ffiseg	Mathemateg a Ffiseg		
Addysg Gorfforol/Gwyddor Chwaraeon	Bioleg	Addysg Gorfforol	Cemeg

Mae profiad cysgodi-gwaith mewn maes perthnasol yn ofyniad mynediad hanfodol ar gyfer cael mynediad i nifer o gyrsiau astudio mewn Addysg Uwch. Siaradwch gyda Mrs. Elin Non Ennis os ydych yn meddwl y gall hyn fod yn berthnasol i chi.

UCAS a Mynediad i Addysg Uwch

Beth yw tariff UCAS?

- System sgorio pwyntiau i adrodd ar gyrhaeddiad ar gyfer mynediad i Addysg Uwch (AU).
- Mae'n rhoi gwerthoedd rhif i gymwysterau.
- Mae'n sefydlu cywerthedd cytunedig rhwng y gwahanol fathau o gymwysterau.
- Mae'n darparu modd o wneud cymariaethau rhwng ymgeisiwyr sydd â gwahanol fathau o gyrhaeddiad.

Pa gymwysterau y mae'n ymdrin â hwy?

- Cymwysterau TAG Uwch ac Uwch Gyfrannol
- Bagloriaeth Cymru
- Sgiliau Allweddol

Sut y bydd Addysg Uwch yn defnyddio'r tariff?

- Mae'r Tariff yn gyfleuster a gynigir i AU i helpu i fynegi gofynion mynediad a gwneud cynigion amodol.
- Nid yw'n orfodol i Sefydliadau Addysg Uwch (HEIs) ddefnyddio'r Tariff, er eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny.
- Mae rhai HEIs yn gwneud cynigion amodol yn seiliedig ar bwyntiau, tra bod eraill yn dal i fynegi cynigion gan ddefnyddio graddau
- Gall y gofynion mynediad wedi'u mynegi fel sgôr pwyntiau fod yn gymwys i fod angen lefel lleiafrifol o ddyfnder a/neu gyrhaeddiad mewn pynciau penodol.

Cydnabyddir y gall unrhyw gymwysterau AS a gaiff eu sefyll ym Mlwyddyn 12 ddarparu arwydd defnyddiol o botensial myfyriwr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gynigion yn amodol ar gyrhaeddiad ym Mlwyddyn 13.

Sut mae'r system pwyntiau yn gweithio?

TARIFF UCAS				
WBQ	**Unedau Sengl**	**TAG UG**	**TAG U2**	**Sgôr**
	Prif Sgiliau Allweddol	**Gwobr 3 uned**	**Gwobr 6 uned**	
Diploma Uwch			A/A*	120
			B	100
			C	80
		A	D	60
		B		50
		C	E	40
	Lefel 4	D		30
	Lefel 3	E		20
	Lefel 2			10

Nid oes uchafswm i nifer y pwyntiau y gellir eu casglu, gan gydnabod yr amrywiaeth llawn o gyraeddiadau myfyrwyr.

Ni fydd unrhyw gyfri dwbl – ni all myfyrwyr gyfri'r un cymhwyster neu gymhwyster tebyg ddwywaith. Caiff sgoriau TAG Uwch Gyfrannol eu cynnwys o fewn sgôr TAG Uwch yn yr un pwnc.

Mae mwy o fanylion ynglŷn ag addasrwydd cymwysterau UG, Lefel U, sgiliau allweddol a'r WBQ ar gyfer mynediad i Addysg Uwch i'w gweld ar dudalennau tariff UCAS, **www.ucas.com**

Gyrfaoedd a Chyfarwyddyd

Yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, rydym yn ymdrechu i annog ein holl fyfyrwyr Chweched Dosbarth i ddatblygu eu holl sgiliau. Yn ogystal â pherfformiad academaidd, rydym yn awyddus i weld datblygiad dinasyddion gweithgar sydd â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y mileniwm newydd hwn.

Mae hawl gan yr holl fyfyrwyr Chweched Dosbarth i gael mynediad i arbenigedd proffesiynol ymgynghorydd gyrfaoedd. Mae Rhion Jenkins yn gweithio i Yrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys, ac mae wedi'i leoli yn yr ysgol am 2 - 3 diwrnod yr wythnos. Gall roi help unigol gyda phob agwedd o gynllunio gyrfaoedd, yn cynnwys cyngor a chyfarwyddyd ar gyrsiau, coleg a'r brifysgol, hyfforddiant a phrentisiaethau modern. Hefyd, gall helpu gyda ffurflenni cais, ceisiadau am nawdd a pharatoi ar gyfer cyfweliadau. Mae'r cyngor a'r cyfarwyddyd y mae'n ei roi yn ddiduedd ac ar gael i bawb. Gall drafod gyda'r Cydlynydd Addysg Gysylltiedig â Gwaith/Gyrfaoedd, i baratoi myfyrwyr am gydrannau Cyfranogiad Cymunedol ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith y WBQ.

Fe'ch cynghorir ac fe'ch anogir i ystyried eich gyrfaoedd unigol yn y dyfodol mor gynnar â phosibl. Os ydych yn gobeithio mynd ymlaen i Addysg Uwch, mae'n bwysig iawn eich bod yn dechrau casglu gwybodaeth a ffurfio syniadau am gyrsiau ar gyfer y dyfodol yn gynnar ym Mlwyddyn 12.

Yn ystod eich amser yn y Chweched Dosbarth, cewch gyfle i ymweld â Chonfensiwn Addysg Uwch UCAS, Diwrnodau Agored Prifysgolion, cyflwyniadau gan siaradwyr sy'n ymweld o sefydliadau Addysg Uwch, mynychu Diwrnodau Gwybodaeth Oxbridge a Chonfensiynau Addysg Uwch sy'n ymwneud â gyrfaoedd penodol (e.e. gofal iechyd a galwedigaethau perthynol).

Bydd cynllunio ar gyfer Addysg Uwch yn dechrau ym Mawrth/Ebrill ym Mlwyddyn 12, a chaiff ceisiadau (trwy UCAS) eu cwblhau yn ystod Medi - Ionawr o Flwyddyn 13.

Ymsefydlu

Bydd yr holl fyfyrwyr Blwyddyn 11 yn cymryd rhan mewn dau sesiwn ymsefydlu a gynlluniwyd i'w wneud yn hawdd iddynt drosglwyddo o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12.

Asesu

Caiff cynnydd myfyrwyr Blwyddyn 12 ei fonitro a'i ases'n rheolaidd. Bydd Tiwtoriaid Personol Blwyddyn 12 yn cyfweld yr holl fyfyrwyr pob hanner tymor. Yn ogystal, bydd asesu ac adrodd ffurfiol yn digwydd fel y disgrifiwyd isod.

⇒ Bydd Cydlynydd Bagloriaeth Cymru a Phennaeth y Chweched Dosbarth yn cyfweld yr holl fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn ystod mis Medi/Hydref er mwyn sicrhau eu bod wedi gwneud dewisiadau pynciau priodol a'u bod yn gwneud cynnydd boddhaol.

⇒ Trwy'r flwyddyn, bydd Pennaeth y Chweched Dosbarth yn trafod unrhyw broblemau sy'n codi gyda myfyrwyr, a lle'n briodol, byddant yn cysylltu â rhieni/gofalwyr.

⇒ Cynhelir sesiynau arholiadau allanol ar gyfer TAG UG ym mis Ionawr a mis Mehefin (bydd hyn yn dibynnu ar y pynciau a ddewisir).

⇒ Cynhelir sesiynau arholiad dros gyfnod o ddwy i dair wythnos.

⇒ Bydd Myfyrwyr/Rhieni/Gofalwyr yn derbyn adroddiad llawn ym mis Chwefror a bydd Noson Rieni ym mis Tachwedd.

Mae myfyrwyr sy'n methu eu TGAU Mathemateg a/neu Saesneg ym Mlwyddyn 11 yn cael eu hannog yn bositif i ailsefyll yr arholiad ym Mlwyddyn 12.

Rhaid ennill gradd C neu uwch mewn Saesneg (neu Gymraeg Iaith Gyntaf) a Mathemateg ar gyfer mynediad i Addysg Uwch. Yn ogystal, efallai y bydd rhai cyrsiau yn nodi cymwysterau mynediad ychwanegol (er enghraifft, mae angen pasio mewn Gwyddoniaeth er mwyn cael mynediad i addysgu).

Celf a Dylunio

LEFEL UG – CBAC

Mrs. H. Flaherty

Mae hwn yn gwrs creadigol, mynegiannol a phleserus. Mae'r cwrs UG yn gofyn i fyfyrwyr ddangos a datblygu: sgiliau deallusol, dychmygus, creadigol ac ymchwiliol, a gwaith annibynnol. Bydd y cwrs yn dechrau gyda chyflwyniad, ymchwilio syniadau a dewis themâu unigol i'w dilyn ar gyfer y portffolio gwaith cwrs. Bydd myfyrwyr yn cael eu cefnogi yn eu hastudiaethau, bydd ganddynt wybodaeth am y cwrs ac asesu, a byddant yn cymryd rhan mewn gweithdai, gan arbrofi gydag amrywiaeth eang o gyfryngau a thechnegau.

Bydd disgwyl i fyfyrwyr greu portffolio gwaith cwrs, trwy ddatblygu gwaith o dasg, thema, pwnc trafod neu ysgogiad a ddewisir. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys llyfrau braslunio neu lyfrau braslunio digidol sy'n rhan hanfodol o'r cwrs; gall hefyd gynnwys taflenni wedi'u gosod, darnau gorffenedig, neu waith a gyflwynwyd gan ddefnyddio TGCh. Bydd gwaith yn cael ei ddewis, ei werthuso a'i gyflwyno gan fyfyrwyr ar ôl derbyn cyfarwyddyd gan staff. Hefyd, bydd angen i'r myfyrwyr ddangos elfen ysgrifenedig trwy anodi a gwerthuso eu gwaith, a thrwy astudio arlunwyr perthnasol, dylunyddion, arddulliau neu ddylanwadau eraill ar eu gwaith.

Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr weithio trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddisgyblaethau, yn cynnwys: paentio, arlunio, graffeg, tecstilau, cerflunwaith, cyfrwng cymysg, ffasiwn, print, ffotograffiaeth a defnyddio delweddau digidol. Mae arlunio a chynllunio yn ganolog i bob maes o arbenigedd, a bydd myfyrwyr yn cwblhau llawer o'u gwaith mewn llyfrau braslunio, gan archwilio ystod o syniadau, ymchwilio, gweithio o ganlyniad i arsylwi a dychymyg, astudio arlunwyr, anodi syniadau a defnyddio eu hamgylchedd i gofnodi ac ysgogi eu syniadau. Mae pwyslais y cwrs newydd hwn ar archwiliad personol, arbrofi a mynegiant personol. Mae gwaith ar gyfer Celf a Dylunio yn cael ei farcio gan yr adran yn yr ysgol, ac wedi hynny, caiff ei safoni'n allanol gan arholwr a fydd yn ymweld.

Bydd y cwrs hwn ar Lefel UG yn cynnwys y canlynol:

Gwaith Cwrs (60% o farc UG)	Aseiniad Rheoledig (Arholiad – 40% o farc UG)
Portffolio gwaith cwrs yn seiliedig ar dasg, thema, pwnc trafod neu ysgogiad unigol. Bydd hyn yn cynnwys llyfrau braslunio, darnau unigol, taflenni wedi'u gosod a gwaith a gyflwynir o bosibl trwy ddefnyddio'r cyfrifiadur. Bydd y myfyriwyd yn dethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith. Dangosir hefyd ddylanwad arlunwyr, diwylliannau neu arddulliau eraill a bydd y myfyrwyr yn anodi eu gwaith er mwyn egluro datblygiad, ysbrydoliaeth ac i werthuso eu gwaith.	Bydd myfyrwyr yn sefyll arholiad ymarferol 8 awr. Byddant yn derbyn y papur arholiad ym mis Chwefror, a rhoddir amser paratoi iddynt gynhyrchu astudiaethau, yn arwain at ganlyniad terfynol yn yr arholiad ei hun. Rhoddir cyfres o themâu i fyfyrwyr ddewis ohonynt ar gyfer eu haseiniad rheoledig. Yna, caiff y gwaith hwn ei gyflwyno, a'i asesu.

Mae nifer o ymgeiswyr yn mynd ymlaen i astudio Safon Uwch yn y pwnc hwn. Bydd y radd a geir yn y Lefel UG yn darparu hanner y marciau ar gyfer Safon Uwch yn gyffredinol, felly mae'n hanfodol fod myfyrwyr yn barod i weithio'n galed ar gyfer y Lefel UG. Mae'r addysgu'n cynnwys gweithdai, rhai gweithgareddau ac ymweliadau dosbarth cyfan a thiwtorialau unigol. Anogir y myfyrwyr i wario rhai cyfnodau astudio yn gweithio yn yr Ystafell Gelf newydd ac yn cynhyrchu gwaith adref, gan fod y pwnc yn cymryd llawer o amser. Bydd myfyrwyr yn gwneud yn dda mewn Celf a Dylunio os ydynt: yn gweithio'n galed, yn greadigol ac yn barod i roi amser i'r pwnc.

Mae cyfleoedd gyrfa yn y maes hwn yn cynnwys: dylunio graffeg, arlunydd ar eich liwt eich hun, addysgu, darlithio, darlunio, hysbysebu, dylunio ar gyfer y teledu, gwisgoedd a'r theatr, dylunio ffasiynau a thecstilau, pensaernïaeth, dylunio trwy gymorth cyfrifiadur, printio, dylunio colur, therapi celf, dylunio gwefannau, ffotograffiaeth, medrau digidol, curadur a dylunio arddangosfeydd. Mae nifer o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i gwrs Safon Uwch a nifer helaeth yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ar lefel Addysg Bellach neu Addysg Uwch.

Bioleg

CBAC

Mrs. L. Lloyd
Mr. R. Thomas

Mae Bioleg yn bwnc sydd wedi'i wreiddio yn yr elfen ddynol. Bydd pobl yn bridio anifeiliaid, gofalu am blanhigion, pysgota afonydd ac yn ymweld â pharciau cenedlaethol. Dengys yr ymddygiad hwn bod yna atyniad cynhenid am fywyd a'i ffurfiau amrywiol. Mae Bioleg Safon Uwch yn ehangiad gwyddonol o'r tuedd dynol hwn i ymgysylltu ac i deimlo'n chwilfrydig am bob ffurf o fywyd.

Mae'n wyddoniaeth ar gyfer meddyliau parod ac anturus sy'n dadlennu byd microsgopig yr unedau sylfaenol o organebau byw a elwir yn gelloedd ac sy'n teithio ymhellach i gylch isficrosgopig o foleciwlau sy'n ffurfio'r celloedd hynny.

Mae'n wyddoniaeth sy'n datgelu cyfrinachau DNA, patrymau'r cod genetig a'r modd y mae esblygiad yn adnewid rhywogaethau dros amser.

Mae'n wyddoniaeth a fydd yn datgelu cymhlethdodau strwythur a swyddogaeth anifeiliaid a phlanhigion, ynghyd â rhyngweithiad organebau gyda'r amgylchedd.

Yn fyr, mae Bioleg yn astudiaeth o fywyd, a chyfeirir ati fel brenhines y gwyddorau.

Rhennir manyleb CBAC i 6 modiwl gwahanol, ac fe'u harholir ar wahân; mae'r cwrs UG yn cynnwys 3 modiwl ym Mlwyddyn 12 ac mae'r cwrs U2 yn cynnwys 3 modiwl pellach ym Mlwyddyn 13.

Lefel UG:

Uned BY 1 Biocemeg sylfaenol a threfniadaeth celloedd
Uned HB 2 Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau'r Corff
Uned BY 3 Asesiad Ymarferol (pwysiadau ar 20% o UG a 10% o Lefel A2)

Lefel A2

Uned BY 4 Metabolaeth, Microbioleg a Homeostasis
Uned BY 5 Yr Amgylchedd, Geneteg ac Esblygiad (+ asesiad synoptig)
Uned BY 6 Asesiad ymarferol (pwysiadau yn 10% o'r safon Uwch)

Ceir mwy o fwynhad a llwyddiant mewn Bioleg o ganlyniad i wybodaeth ddwys o faterion cyfoes, e.e. genomau dynol, technoleg bôn-gelloedd a'r amgylchedd, trwy ddefnyddio'r cyfryngau, y rhyngrwyd a darllen (e.e. *New Scientist*).

Disgwylir cymhwyster mewn Bioleg ar gyfer nifer o gyrsiau Prifysgol, er enghraifft Nyrsio, Meddygaeth, Ffisiotherapi, Fferyllaeth, Milfeddygaeth, Biocemeg, Bioleg Môr ac Ecoleg.

Cemeg

CBAC

Mr. D. Barlow
Mr. T. Breen Smith

Mae'r lefel UG yn cynnwys 3 uned:

Ch1 Rheoli a mesur newid cemegol
Ch2 Nodweddion, strwythur a bondio
Ch3a UG Cemeg Ymarferol

Lluniwyd y cwrs UG er mwyn cyflwyno'r myfyrwyr i syniadau sylfaenol y tair prif gangen o Gemeg – Ffisegol, Anorganig ac Organig.

Caiff y papurau arholiad UG eu sefyll ym mis Mehefin yn ystod Blwyddyn 12

Mae'r lefel U2 yn cynnwys 3 uned:

Ch4 Dadansoddi ac adeiladu moleciwlau
Ch5 Safon Uwch Cemeg Ffisegol ac Anorganig
Ch6a U2 Cemeg Ymarferol

Mae'r cwrs U2 yn datblygu sgiliau gwyddonol allweddol, ac mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer y rheiny sy'n dymuno astudio cemeg neu feysydd cysylltiedig ar lefel uwch.

Ymgymerir â phapurau arholiad U2 ym mis Mehefin ym Mlwyddyn 13.

Dylai myfyrwyr sy'n ystyried cymryd y cwrs fod yn gymwys mewn Mathemateg ar lefel uwch TGAU.

Hefyd, dylent feddu ar etheg weithiol gadarn, a dylent fod yn barod i roi amser sylweddol tuag at eu hastudiaethau, o fewn a thu allan i'r ysgol.

Astudiaethau Cyfathrebu a Diwylliannol

AQA

Miss R. Bailey
Mrs. L. Hayward

Pa mor bwysig yw'r ffonau symudol diweddaraf, consolau gemau neu chwaraewyr MP3 i chi? Pam y cawsant eu dylunio fel y maent? A fedrant ddweud rhywbeth amdanom ni ein hunain a'r ffordd yr ydym yn cysylltu ag eraill? Fel gwrthrychau, beth maent yn ei olygu? Pam ydym ni mor hoff o siopa? Sut ydych chi'n gwybod pwy ydych chi mewn gwirionedd?

Dyma'r math o gwestiynau a ofynnir yn y cwrs Safon Uwch Cyfathrebu a Diwylliant. Mae'r cwrs hwn yn cymryd pob darn diddorol o Seicoleg, Cymdeithaseg ac Anthropoleg, gan eu cymhwyso i'ch profiadau bob dydd fel man cychwyn er mwyn sicrhau pwnc diddorol, cyraeddadwy a heriol.

Byddwch yn dysgu am eich diwylliant; ei reolau a'i safonau anysgrifenedig, ei strwythurau grym a'i systemau gwerthoedd – a phwysigrwydd hynny o ran eich ymdeimlad o hunaniaeth. Ar yr un pryd, byddwch yn rhoi eich diwylliant chi o fewn cyd-destun ehangach er mwyn cael dealltwriaeth o wahaniaethau diwylliannol ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae'r **UG** yn edrych ar y berthynas rhwng unigolion a'r amgylchedd diwylliannol ehangach.

Mae **Uned Un** yn cyflwyno egwyddorion sylfaenol, gan ddechrau gyda diffiniadau a dehongliadau o'r cysyniad o ddiwylliant ei hun. Byddwch yn tynnu ar eich profiadau personol i archwilio'r gwahaniaethau rhwng diwylliant 'uwch' a diwylliant 'poblogaidd' a'r rhesymau dros osod gwerthoedd gwahanol ar gynnyrch ac arferion diwylliannol gwahanol.
Er enghraifft: ydy sgrialu'n well na pholo?
Hefyd, mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y ffyrdd y mae diwylliant yn cael ei gyfathrebu trwy arwyddion a symbolau, megis iaith a Chyfathrebu di-eiriau sy'n ein gwneud yn unigolion.

Mae **Uned Dau** yn datblygu dealltwriaeth o'r syniadau yn Uned Un trwy ymarfer a chymhwyso.
Byddwch yn darparu portffolio o ymchwiliadau, archwiliadau a chyflwyniad.

Mae **U2, Uned Tri** yn cyflwyno safbwyntiau damcaniaethol, megis ôl-foderniaeth a ffeministiaeth, ynghyd â chysyniadau, megis pŵer, ymdriniaeth a thechnoleg, mewn perthynas ag o leiaf un o'r safleoedd diwylliannol canlynol:
Gofod a Lles – yr amgylchedd adeiladol o ran trefi a dinasoedd, cefn gwlad, canolfannau siopa a chyrchfannau gwyliau.
Ffuglen – y 'straeon' sy'n rhan o'n diwylliant ar ffurf dramâu, nofelau, ffilmiau, arddangosfeydd, gemau cyfrifiadurol.
A –
Gwrthrychau ein Dymuniad – y cynnyrch, o bosibl yr ydym yn eu chwennych neu sy'n annwyl i ni; sy'n symboleiddio agweddau pwysig o wahanol ddiwylliannau. Dyma'r astudiaeth o'r modd o mae diwylliant yn buddsoddi mewn pethau sydd ag ystyr iddynt.

Uned gwaith cwrs synoptig ydy **Uned Pedwar**. Dylai'r uned hon eich ysgogi a'ch herio i gynhyrchu gwaith arbennig; y byddwch yn ei gofio gyda balchder ymhell ar ôl i chi orffen eich astudiaethau Safon Uwch, a bydd yn eich paratoi ar gyfer y math o waith y byddwch yn ei wneud yn y brifysgol.
O fewn cyd-destun pynciau gosod, er enghraifft Enwogion, Newidiadau i'r Corff neu Sinema fel Ymarfer Ddiwylliannol, byddwch yn darparu ymchwiliad astudiaeth achos o ddeunydd llafar a gweledol a chyflwyniad yn seiliedig ar y we.

Dylunio a Thechnoleg

CBAC
Mr. R. Davies
Miss K. Rees

Manylion y cwrs:

Mae'r cwrs UG a Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg (Dylunio Cynnyrch) yn cynnig cynnydd addas i fyfyrwyr sydd wedi astudio cynnyrch graffig, technoleg deunyddiau gwrthiannol neu decstilau yn eu harholiadau TGAU.

Mae'r cwrs heriol a phleserus hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr adnabod a datrys problemau real, a disgwylir iddo apelio'n helaeth. Bydd y myfyrwyr yn gallu gweithio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau sy'n ymwneud â'u diddordebau personol neu'r gyrfaoedd y maent yn dymuno ymgymryd â hwy yn y dyfodol.

Addysgir y cwrs Dylunio a Thechnoleg (Dylunio Cynnyrch) UG a Safon Uwch gan staff dylunio profiadol a brwdfrydig. Rydym yn annog ein myfyrwyr i fabwysiadu agwedd arloesol a llawn dychymyg a fydd yn caniatáu iddynt ddatblygu eu gallu o ran creadigrwydd ac annibyniaeth. Hefyd, bydd y dasg dylunio a gwneud yn galluogi'r myfyrwyr i elwa o amrywiaeth o sgiliau gwneud ar lefel uchel, gan ddefnyddio dulliau cynhyrchu traddodiadol a thrwy gyfrwng y cyfrifiadur.

Rhennir y fanyleb i gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned Safon Uwch. Nodir y pwysiadau isod yn nhermau cymhwyster llawn Safon Uwch.

Lefel UG

Modiwl	Manylion y Modiwl	Y gwaith i'w gwblhau erbyn
DT1	Papur Arholiad Dylunio Cynnyrch (20%) 2 awr	I'w sefyll ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn UG.
DT2	Tasg Dylunio a Gwneud (30%) Tua 60 awr 1 portffolio dylunio A3 a gwneud cynnyrch. Llyfr braslunio dylunio	Trwy'r flwyddyn UG, i'w gwblhau erbyn mis Ebrill y flwyddyn honno

Safon Uwch (yr uwcho yn ogystal â'r modiwlau safon Uwch canlynol)

Modiwl	Manylion y Modiwl	Y gwaith i'w gwblhau erbyn
DT3	Papur Arholiad Ysgrifenedig (20%) 2 ½ awr	Sat in June of AL year.
DT4	Prosiect Mawr – prosiect Dylunio a Gwneud (30%) Tua 60 awr	Trwy'r flwyddyn Safon Uwch, i'w gwblhau erbyn mis Ebrill y flwyddyn honno

Uchod: Dylunio Cynnyrch Safon Uwch

Ar y Dde: Dyluniwyd a gwnaethpwyd y cerflun trawiadol hwn gan Mark Powell ar gyfer i brosiect Dylunio Safon Uwch. Astudiodd ar gyfer gradd mewn Dylunio Cynnyrch yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Isod: Dyluniodd Sean Jones uned storio arloesol ar gyfer ei brosiect Dylunio Safon Uwch. Erbyn hyn, mae'n astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Cafodd y ddau brosiect eu hargymell ar gyfer rownd gyntaf Dyfarniadau Arloesi Safon Uwch.

Isod: Amrywiaeth o dasgau estynedig Safon Uwch - enghreifftiau o Unedau Goleuo.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal arddangosfa o waith TGAU a Lefel UG/U i ddangos ansawdd y cynhyrchion o bob maes Dylunio arbenigol. Rydym yn derbyn positif iawn gan bawb sy'n mynychu.

Prosiectau Tecstilau Safon U/UG 2009/10

Crëwyd y ffrog gyda'r het gan Sara Davies, myfyrwraig Safon Uwch.
Cafodd y ffrog ei ysbrydoli gan bensaernïaeth, ac enillodd le yn Sioe 'Innovations' 2010.

Cafodd y tair gwisg arall eu cynllunio a'u gwneud gan fyfyrwyr Lefel UG, Sara Lewis, Charlotte Probert a Vicky Worts. Crëwyd yr holl gynlluniau hyn gan ddefnyddio deunyddiau cynaladwy wedi'u hailgylchu.

Drama a Chelfyddydau Theatr

EDEXCEL

Mr. R. Lewis

Pam fod Byd y Theatr wedi swyno'r hil ddynol o'r cychwyn cyntaf? Pwy yw Oedipus, Harlequin, Prospero, Hedda Gabler, a *Mother Courage*? Beth am Berkoff, Brecht, Brook, a Becket ?

Ymunwch â'r cwrs hudol hwn yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt i ddarganfod mwy am fawrion y byd Celf tra'n rhoi i chi'r hyder i gyfathrebu'n effeithiol. Mae drama yn cael ei chydnabod gan bob Prifysgol fel pwnc allweddol. Cofiwch nad yw Drama ar gyfer darpar actorion a phobl broffesiynol y cyfryngau yn unig e.e. mae gan Ysgol Fusnes Manceinion fodiwl Drama gorfodol yn ei Chwrs Gradd Astudiaethau Busnes a'i chwrs MBA. Wedi'r cyfan dim ond "perfformiad" da neu ddrwg arall yw Rheolaeth. I ddod yn hyderus, dewiswch gwrs Drama, a dysgwch i gyfathrebu o ddifri.

Beth sydd angen i chi wybod neu allu ei wneud cyn cymryd y cwrs hwn?
Bydd yn ddefnyddiol os ydych wedi cymryd Drama ar lefel TGAU, ond nid yw hyn yn hanfodol. Mae'n bwysig fod gennych chi ddiddordeb mewn sicrhau mwy o ddealltwriaeth o sut y mae theatr a dramâu yn gweithio, a'ch bod yn awyddus i fod yn gysylltiedig â pherfformiadau.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu ar y cwrs hwn?
Mae'r cwrs yn galw am sgiliau ymarferol, creadigol a chyfathrebu. Byddwch yn ymestyn eich gallu i greu drama a theatr, naill ai mewn rôl berfformio neu gynhyrchu. Hefyd, bydd angen i chi ysgrifennu am ddrama, gan ddatblygu eich gallu i ddadansoddi er mwyn dod yn feirniad deallus. Bydd y cwrs yn golygu cymryd rhan mewn cynyrchiadau drama, yn ogystal ag astudio dramâu a dramodwyr.

Pa fath o fyfyriwr y mae'r cwrs hwn yn addas iddynt?
Mae angen i chi fod yn chwilfrydig am agweddau a syniadau, gan feddu ar reddf greadigol o ran cyfathrebu eich barn trwy ddrama. Efallai eich bod yn hoffi actio, ysgrifennu neu ochr weledol a thechnegol y Theatr, ac rydych eisiau datblygu eich sgiliau mewn rhai o'r agweddau hyn, neu'r cyfan ohonynt. Yn yr un modd, bydd gennych ddiddordeb mewn mynd i'r theatr i weld dramâu wedi'u perfformio gan wahanol gwmnïau theatr. Mae drama yn cynnwys rhai prosiectau grŵp cyffrous ac uchelgeisiol. Rhaid i fyfyrwyr fod yn barod i ymrwymo eu hunain i weithio rhai nosweithiau neu benwythnosau wrth nesáu at berfformiadau.

UNEDAU UG

Uned 1 (Côd: 6DR01) **Archwilio Drama a Theatr** ***Ymchwilio testun 2 ddrama a ddewiswyd gan y ganolfan trwy sesiynau gweithdy ymarferol, ynghyd ag adroddiadau gwaith cwrs ar ymchwilio testunau, ymarferwyr a chefndir damcaniaethol* (i'w asesu gan yr Athro)**	*20% gweithdy ymarferol a gwaith cwrs i'w asesu'n fewnol/ ei safoni'n allanol*
Uned 2 (Côd: 6DR02) **Testun Theatr mewn Perfformiad** Archwiliad ymarferol o sgiliau actio neu ddylunio'r myfyriwr mewn monologau/deialogau AC chynhyrchiad o ddrama wedi'i gyfarwyddo.	*30% perfformiad wedi'i asesu'n allanol o flaen cynulleidfa ac Arholwr sy'n Ymweld*

UNEDAU A2

Uned 3 (Côd: 6DR03) **Archwilio Perfformiad Dramatig** Dyfeisio a pherfformio darn gwreiddiol o theatr a gynhyrchwyd gan y myfyrwyr trwy weithio ar y cyd, ynghyd ag adroddiad gwaith cwrs ar y broses o ddyfeisio *(i'w asesu gan yr Athro)*	*20% perfformiad ymarferol wedi'i asesu'n fewnol/allanol o flaen cynulleidfa + gwaith cwrs*
Uned 4 (Côd: 6DR04) **Testun Theatr mewn Cyd-destun** 3 chwestiwn arholiad yn seiliedig ar astudiaeth o 2 ddrama. Mae Adran A yn seiliedig ar ddealltwriaeth o ymagwedd academaidd ac ymarferol cyfarwyddwr i ddrama a osodwyd gan y bwrdd arholi; Mae Adran B yn seiliedig ar ddadansoddi perfformiad o ddrama hanesyddol a welwyd gan y myfyrwyr gan ymchwilio i'w hanes perfformio.	*30% papur ysgrifenedig 2½ awr wedi'i asesu'n allanol*

Iaith a Llenyddiaeth Saesneg

CBAC
Mrs. K. Williams
Mrs. J. Sharp

Ystyrir Lefel UG a Safon Uwch yn y pwnc hwn o'r radd flaenaf o ran cael ei werthfawrogi gan brifysgolion ar gyfer pob pwnc, gan gynnwys gwyddoniaeth, meddygaeth, gwyddorau cymdeithasol, ieithoedd tramor modern, a'r celfyddydau.

Byddwn yn eich annog i astudio iaith a llenyddiaeth fel disgyblaethau cydgysylltiol. Rydym am i chi ddatblygu'r gallu i ddefnyddio cysyniadau gwerthfawrogi beirniadol ac ieithyddol a fframweithiau dadansoddol wrth gyflwyno sylwadau ar ystod eang o destunau llafar ac ysgrifenedig.

Byddwch yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol, hyderus a myfyriol, a byddwch yn medru cysylltu'r testun â'r cyd-destun y'i cynhyrchwyd. Byddwch yn datblygu eich sgiliau ysgrifennu er mwyn darparu testunau ar gyfer amryw o gynulleidfaoedd a dibenion yn ogystal ag ehangu a dwysáu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r modd y defnyddir ac y derbynnir iaith. Bydd hyn yn eich galluogi i wneud cymhariaeth a chysylltiadau rhwng testunau, gan gymryd i ystyriaeth y ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol a ddylanwadodd arnynt.

Byddwn yn dangos i chi sut i ddethol ymagweddau sydd fwyaf perthnasol ar gyfer eich astudiaeth a'ch ymchwil. Bydd y pwnc pleserus a heriol hwn yn atgyfnerthu eich sgiliau cyfathrebu'n gyffredinol. Os ydych yn mwynhau darllen ac ysgrifennu, yna dyma'r cwrs ar eich cyfer chi.

ENGLISH LANGUAGE & LITERATURE

AS (2 units)

LL1 30% 2½ hour Written Paper **80 marks (120 UMS)**
Critical Reading of Literary and Non-Literary Texts **Section A: Poetry pre-1900 (closed text) + unseen text** Choice of one from two questions (40 marks) **Section B: Prose (open text)** 2 prose texts: one question (40 marks)
LL2 20% Internal Assessment **80 marks (80 UMS)**
Creative Writing **3 tasks** (80 marks: 2 x 20; 1 x 40) • 2 creative writing tasks • commentary on both creative writing tasks

A LEVEL (the above plus a further 2 units)

LL3 20% Internal Assessment **80 marks (80 UMS)**
Analysing and Producing Performance Texts **Section A: Dramatic texts in context** 2 texts – one piece of extended writing (40 marks) **Section B: Producing texts for performance** • writing 2 original texts for performance • evaluating one of the texts. (40 marks)
LL4 30% 2½ hours Written Paper **80 marks (120 UMS)**
Comparative Textual Analysis and Review **Section A: Comparative analysis of texts** 3 unseen texts: one question (40 marks) **Section B: Reviewing approaches** 1 text (poetry/prose – open text) Choice of one from 6 questions. (40 marks)

Ffrangeg ac Almaeneg

CBAC

FFRANGEG
Mrs. L. Pedelty
Mrs. S. Morris

ALMAENEG
Mrs. L. Pedelty
Mrs. L. Tomlin

Beth fydd y dyfodol o'ch safbwynt chi? Fel bo gorwelion Ewropeaidd Prydain yn ehangu, felly y gwna'r galw am gymhwyster mewn Ieithoedd Ewropeaidd.

"We still compare woefully with many of our European partners."

"In many European countries they think nothing of teaching their children two or three languages". "In this country nine out of 10 youngsters in the 16 to 19 age group drop languages."

"Our young people are coming out of colleges and competing for jobs with youngsters from the rest of Europe who speak several languages, and they won't stand a chance."
(Guardian Education)

Felly, pam nad ewch gam ymhellach? Mae Lefel UG neu U2 mewn Ffrangeg neu Almaeneg yn ffurfio dilyniant rhesymegol i waith sydd eisoes wedi'i gyflawni yn ystod TGAU ac atgyfnerthir y wybodaeth a'r sgiliau a sicrhawyd eisoes.

Byddai cymhwyster mewn iaith dramor yn cynorthwyo eich cyfleoedd gyrfaol. Mewn gwirionedd, gall dimensiwn iaith dramor berthyn i fwy neu lai unrhyw swydd neu yrfa. Gan fod mwy a mwy o gwmnïau rhyngwladol, mae cyfleoedd cynyddol a hyd yn oed ofynion i weithio mewn amgylchedd amlieithyddol. Os ydych yn ystyried addysg uwch, mae nifer cynyddol o gyrsiau'n cynnwys elfen o iaith dramor.

Mae mudoledd llafur yn golygu bod cystadleuaeth gynyddol am swyddi o fewn y Farchnad Ewropeaidd. Eisoes, ceir pobl ifanc o wledydd, megis Yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a Ffrainc yn gwneud defnydd o'u sgiliau ieithyddol mewn Saesneg er mwyn sicrhau swyddi yn y Deyrnas Unedig. Ydy'n pobl ifanc ni yn alluog i wneud yr un fath mewn gwledydd Ewropeaidd eraill?

Ni all Cymru gynyddu ei CMC (cynnyrch mewnwladol crynswth) a'i ffyniant trwy fusnesau bychain, lleol yn unig - mae angen cwmnïau arni sy'n masnachu ar lefel Ewropeaidd a'r Byd. Mae sgiliau ieithyddol yn chwarae rhan bwysig yn y broses o integreiddiad Ewropeaidd.

Ym mhôl piniwn MORI ar Sgiliau Dyfodol Cymru, mae'n amlwg fod pobl busnes Cymru o'r farn y bydd sgiliau cyfathrebu'n dod yn fwyfwy pwysig yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd gan sgiliau iaith hefyd swyddogaeth hanfodol o ran y datblygiad hwn.

Heblaw hynny, gellir astudio ieithoedd mewn cyfuniad â nifer o bynciau eraill – Astudiaethau Busnes, Twristiaeth, Y Gyfraith, Gwleidyddiaeth, Y Gwyddorau, Cyfrifiaduraeth – i enwi ond ychydig, gan ddyrchafu eich gradd yn fawr.

Mae mwy a mwy o fyfyrwyr o fewn prifysgolion yn manteisio ar 'Raglen Erasmus' sy'n eu galluogi i astudio mewn gwlad dramor am flwyddyn fel rhan o'u cwrs. Gall cymhwyster Safon Uwch mewn Iaith gynyddu eich cyfle o gael eich derbyn ar y rhaglen hon. Am fwy o fanylion, gweler y wefan:
http://www.britishcouncil.org/erasmus

Os byddwch yn dewis iaith ar gyfer lefel UG, bydd hyn yn cyflawni gofynion y modiwl iaith ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

Yn ystod y Cwrs
Anogwn gymaint â phosibl o gyswllt gyda'r wlad frodorol trwy gyfrwng Radio, Teledu, Papurau Newydd a Chylchgronau, ac yn fwy na dim, trwy ymweliadau i'r wlad. Gall myfyrwyr ymgymryd â phrofiad gwaith yn Ffrainc neu'r Almaen, a gall hyn ddarparu profiad amhrisiadwy i'w ffordd o fyw a'u diwylliant. Mae gennym gysylltiadau sefydledig dros ben gyda Colmar a Vittel yn Ffrainc a Mönchengladbach yn Yr Almaen.

O fewn y Gyfadran Iaith, mae gennym ganolfan adnoddau ac mae'r ganolfan hon ar gael i fyfyrwyr y 6ed Dosbarth. Mae'r adnodd hon yn eu galluogi i ddefnyddio teledu lloeren a fideo, a chyfrifiadur.

Y Fanyleb a Chynllun Asesu
Wrth astudio Ffrangeg neu Almaeneg yn Lefel UG neu U2, rhydd cryn bwyslais ar ddatblygu sgiliau llafar a'r gallu i gyfathrebu'n ddealladwy, yn ddiddorol ac yn ddarbwyllol. Yn naturiol, mae'n hyrwyddo gwell gwybodaeth a phleser o Ffrainc neu'r Almaen ac yn annog diddordeb mewn materion cyfoes.

Cynnwys y Cwrs
Bydd y testunau canlynol yn cael eu hastudio gan dargedu ieithoedd gwledydd yn ogystal â chyd-destun ehangach, byd-eang fel bo'n berthnasol.

UG
(a**). Hamdden a Dulliau byw**, gan gynnwys teithio a thwristiaeth, chwaraeon, hobïau, adloniant, arferion, traddodiadau, byw'n iach – iechyd a maeth, diet ac ymarfer, byw afiach-cyffuriau, aids, ysmygu, alcohol ac ati.
(b). **Yr Unigolyn a'r Gymdeithas**, gan gynnwys perthnasoedd a chyfrifoldebau, materion rhyw, diwylliant yr ifanc (gwerthoedd, grwpiau cyfoedion, ffasiwn a thueddiadau ac ati), addysg, hyfforddiant galwedigaethol a gyrfaoedd yn y dyfodol.

SAFON UWCH
(c). **Materion Amgylcheddol**, gan gynnwys llygredd technoleg, cynhesu byd-eang, cludiant, egni, egni niwclear, egni adnewyddol, cadwraeth, ail-gylchu, cynaliadwyedd.
(d). **Materion Cymdeithasol a Gwleidyddol**, gan gynnwys rôl y cyfryngau, hiliaeth, mewnfudo, eithrio a chymathu cymdeithasol, terfysgaeth, byd gwaith (cyflogaeth, masnach, globaleiddio, ac ati).

CRYNODEB O'R ASESIAD
Rhennir y fanyleb hon yn gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mynegir y pwysiadau a welir isod yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

'One of the key challenges of the new millennium is the internationalisation of society and its effects on individuals and institutions. Language and culture will remain central to meeting that challenge.'

Dr Lid King
Cyfarwyddwr, CILT

UG (2 uned)

FN1/GN1	**20%**	**12-15 munud,**	**80 marc GMU**
Llafar			
Trafodaeth ar bynciau wedi'i arwain gan arholwr			
Sgwrs gyffredinol			
FN2/GN2	**30%**	**2.5 awr**	**120 marc GMU**
Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu			
Gwrando, Darllen ac Ymateb			
Tasgau gramadeg			
Cyfieithu'r Iaith Darged – Saesneg			
Traethawd			

Safon Uwch (yr uchod a 2 uned arall)

FN3/GN3	**20%**	**15-20 munud**	**80 UMS marks**
Llafar (Trafodaeth Strwythuredig)			
FN4/GN4	**30%**	**3 hours**	**120 UMS marks**
Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu.			
Gwrando, Darllen ac Ymateb			
Cyfieithu Saesneg – Iaith Darged			
Traethawd Astudiaethau Cyfeiriedig			

Cyflwyno'r achos dros ieithoedd
Rhagolygon da am swyddi ar gyfer graddedigion iaith blwyddyn ar ôl blwyddyn, ar ôl blwyddyn ----------

SWYDDI
"Os oes gennych iaith ychwanegol, rydych eisoes un cam o flaen rhywun arall sy'n ymgeisio "
SGILIAU
"Mae unrhyw sgil ieithyddol yn gaffaeliad am oes"
"Gyda'r gemau Olympaidd ar y gorwel, bydd angen pobl sy'n meddu ar ieithoedd i helpu'r athletwyr a'r twristiaid sy'n dod i'r gemau."

NEGESEUON ALLWEDDOL GAN CILT (Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd)
- Nid yw Saesneg yn ddigon.
- Gall ychydig wybodaeth o iaith dramor wneud llawer o wahaniaeth.

Oes yna ragolygon go iawn am swyddi ar gyfer graddedigion iaith?

Dengys ymchwil cyson bod graddedigion sy'n meddu ar sgiliau ieithyddol ar y blaen o ran y farchnad gyflogaeth bresennol : mae ganddynt **gyflogadwyedd uwch (94.2%)** na graddedigion mewn pynciau eraill, ac **maent yn ennill, ar gyfartaledd 8% yn fwy** na graddedigion heb unrhyw wybodaeth o iaith dramor.

Daearyddiaeth

CBAC

Mr. D. Ronicle
Mrs. C. Price
Mrs. L. Lewis

Mae'r cwrs TAG UG/U yn esblygiad o'r cwrs TGAU. Nid yw'r cwrs Safon Uwch Daearyddiaeth am "fapiau'n unig". Mae'n cymryd cwestiynau am Fyd sy'n newid yn gyson ac yn caniatáu i chi gael y wybodaeth i'w hateb. Mae rhai cwestiynau'n anodd, fel y gall rhai atebion fod yn anodd. Mewn geiriau eraill, bydd y cwrs hwn yn eich herio.
Ym Mlwyddyn 12, bydd y cwrs UG yn cynnwys:

G1 – Amgylcheddau Ffisegol Newidiol - Mae hyn yn ymchwilio :

a. Newid Hinsawdd. Y rhesymau dros y newidiadau. Effaith ddynol ar yr hinsawdd a'r strategaethau ar gyfer ymdrin â'r newidiadau.

b. Newidiadau Tectonig a Hydrolegol. Sut y mae dyn yn ymateb i beryglon tectonig a phatrymau afonydd yn yr amgylchedd.

G2 – Amgylcheddau Dynol Newidiol - Mae hyn yn ymchwilio :

a. Newid yn y Boblogaeth. Y rhesymau dros dwf poblogaeth, y gost a buddion y mae mudo yn ei chwarae ar boblogaeth ac anghenion y dyfodol o ran poblogaeth newidiol.

b. Newidiadau o ran aneddiadau. Sut y mae lleoedd trefol a gwledig yn tyfu ac yn newid. Y pwysau a roddir ar yr amgylchedd oherwydd twf cynyddol y trefi.

Asesu ar gyfer y cwrs UG :

Asesir y ddau fodiwl trwy arholiadau modiwlar (1 awr 30 munud) sy'n cymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd trwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad i waith maes.

Ym Mlwyddyn 13, bydd y cwrs A2 yn cynnwys dau fodiwl.

Diben y modiwlau hyn yw annog myfyrwyr i gysylltu syniadau a meddu ar y gallu i werthuso'r problemau a grëwyd a sut y mae'r elfen Ddynol yn rhyngweithio â'r Amgylchedd

G3 – Themâu cyfoes mewn Daearyddiaeth.

Adran 1 – Dewis o ddwy thema, i.. Peryglon Hinsoddol a ii. Datblygiad, sy'n galluogi i fyfyrwyr ymchwilio a datblygu dealltwriaeth a chysylltiadau o fewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol.

Adran 2 – Ymholiad Ymchwil Unigol. Bydd hyn yn galluogi i fyfyrwyr ymgymryd ag ymchwil unigol, gan gynnwys gwaith maes yn seiliedig ar gyfres o deitlau a osodwyd o flaen llaw, er enghraifft Daearyddiaeth Afiechydon, Microhinsoddau, Newidiadau Amgylcheddol, Daearyddiaeth Troseddau.

G4 – Cynaladwyedd.

Mae hon yn uned gwneud penderfyniad. Mae'n caniatáu'r myfyrwyr i gysylltu ystod o syniadau i'r cwrs Safon Uwch cyflawn. Mae'n canolbwyntio ar ddatrys problemau a gwerthuso ystod o syniadau. Dewisir y rhain o'r canlynol:

Cyflenwad Bwyd
Cyflenwad Dŵr
Ynni
Dinasoedd Cynaladwy

Asesu'r cwrs A2:

G3 – dau gwestiwn traethawd yn seiliedig ar Adran A ac un traethawd yn Adran B yn seiliedig ar ymholiad ymchwil y myfyrwyr. (2 awr 15 munud)

G4 – Cyfres o gwestiynau'n seiliedig ar y cwrs cyflawn a ryddhawyd ymlaen llaw gan y bwrdd arholi cyn yr arholiad. Bydd hyn yn galluogi'r myfyrwyr i wneud ymchwil pellach i gefnogi eu hatebion.

Yn U2, bydd ffocws y ddwy adran ar annog myfyrwyr i gysylltu syniadau, gwerthuso'r problemau sydd wedi'u creu a sut y mae dyn yn rhyngweithio â'r amgylchedd.

Manylion pellach
Bydd testunau, syniadau ac astudiaethau achos yn cysylltu pob rhan o'r cwrs. Rhoddir set o destunau i bob myfyriwr – i ychwanegu at nodiadau'r dosbarth. Disgwylir i'r myfyrwyr gadw fyny â materion cyfoes. Cynigir ystod o waith maes. Ar hyn o bryd, mae'r ardal leol, Cwm Rheidol ac ardal Caerdydd yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys tridiau o gwrs maes preswyl i gynorthwyo gwaith yn ymwneud ag Agweddau Amgylcheddol o fewn y System Afonydd

TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol

CBAC

Mrs. S. Evans

Dylai'r lefel UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol annog ymgeiswyr i:

- Ddatblygu a chynnal diddordeb mewn iechyd, gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol ac agweddau'n effeithio ar y sector gofal.
- Cael gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar ac agweddau'n effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad effeithiol i'r sector gofal gan gynnwys sgiliau ymchwil, gwerthuso a datrys problemau mewn cyd-destun yn gysylltiedig â gwaith.
- Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau. .
- Paratoi ar gyfer astudiaeth a hyfforddiant pellach.

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu faes cysylltiedig trwy ystod o gyrsiau addysg uwch (e.e. Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Astudiaethau Iechyd Cymunedol, Nyrsio (Cofrestredig); dilyniant i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol (e.e. Lefelau CGC(NVQ) 3 a 4 mewn Rheolaeth); neu fynediad uniongyrchol i waith. Yn ogystal, mae'r cwrs yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaol a gwerth chweil i ymgeiswyr sydd ddim yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Mae'r Safon Uwch yn cynnwys dwy ran; UG – 50% o ddyfarniad U ac U2 – 50% o'r dyfarniad cyflawn.

Mae'r Uwch Gyfrannol yn cynnwys dwy uned:
1. Hyrwyddo Gofal o Safon a Chyfathrebu (40%)
2. Hybu Iechyd Da (60%)

Mae U2 yn cynnwys dwy uned:
1. Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (40%)
2. Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles (60%)

UG
Hyrwyddo Gofal o Safon a Chyfathrebu
Mae'r uned yn cyflwyno ymgeiswyr i ffactorau sy'n effeithio ansawdd bywyd. Yr egwyddorion gofal, sgiliau a thechnegau sydd eu hangen gan ofalwyr ffurfiol ac anffurfiol i ofalu am unigolion o fewn ystod o sefydliadau gofal. Mae'r uned yn darparu'r sylfaen ar gyfer dealltwriaeth ac o ran cymhwyso unedau eraill. Bydd cynnwys yr uned hon fel a ganlyn:
- Ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion
- Egwyddorion gofal
- Sgiliau a thechnegau gofal
- Cyfathrebu
- Rhwystrau cyfathrebu a gofal o safon
- Hawliau a chyfrifoldebau darparwyr ac unigolion

Asesu
Asesir yr uned hon trwy brawf allanol yn seiliedig ar gynnwys yr uned. Bydd un arholiad (1½ awr).

Hybu Iechyd Da

Bydd yr uned hon yn galluogi ymgeiswyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles unigolion a sut y mae cynlluniau diweddar y Llywodraeth yn hybu iechyd da.

Bydd yr uned hon yn cynnwys y canlynol:

- Persbectif ar iechyd a lles
- Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles
- Mesurau ataliol i osgoi salwch
- Rolau swyddi gweithwyr allweddol mewn Hybu Iechyd
- Technegau a ddefnyddir o fewn Hybu Iechyd

Asesu
Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol a'i chymedroli'n allanol. Bydd angen i'r ymgeiswyr ddarparu portffolio yn cynnwys tystiolaeth o'r cynllunio a'r darparu, cyflawni a gwerthuso ymgyrch hybu iechyd a amcenir ar gyfer grŵp targed penodol.

A2
Darparu Gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Phlant
Ar gyfer yr uned hon, bydd angen i'r ymgeiswyr astudio prif iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant er mwyn diwallu anghenion unigol. Bydd yr uned yn cynnwys:

- Darpariaeth gwasanaeth yn yr ardal leol
- Diwallu anghenion unigolion
- Rolau ymarferwyr o fewn timau amlddisgyblaethol
- Gweithdrefnau sicrhau ansawdd
- Effeithiau polisïau a deddfwriaeth genedlaethol ar ddarpariaeth gwasanaeth

Asesu
Asesir yr uned yn allanol a bydd angen i'r ymgeiswyr ddarparu adroddiad yn seiliedig ar aseiniad gwaith cwrs, 10 awr o hyd a osodir gan CBAC.

Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles
Diben yr uned hon yw cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad y gwahanol agweddau'n ymwneud â diet a ffitrwydd unigolion ar wahanol gyfnodau bywyd. Bydd yr uned yn cynnwys:

- Prif faetholion bwyd – eu ffynhonnell a'u swyddogaeth
- Effeithiau positif gweithgareddau corfforol ar iechyd corfforol, seicolegol/meddwl a chymdeithasol unigolion
- Canllawiau dietegol cyfredol a gweithgareddau corfforol a luniwyd i hyrwyddo iechyd y genedl
- Swyddogaeth diet iach a gweithgaredd corfforol cyson er atal / rheoli rhai clefydau
- Cynllunio dietau addas a rhaglenni gweithgareddau corfforol i unigolion

Asesu
Bydd angen i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio canlyniadau diet a rhaglen gweithgareddau corfforol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer dau unigolyn am isafswm o bedair wythnos. Bydd yr adroddiad yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol ac eilaidd gyda'r unigolion mewn gwahanol gyfnodau bywyd. Bydd y ddau unigolyn yn dilyn diet sydd wedi'i gynllunio'n benodol ynghyd â rhaglen weithgaredd corfforol ond bydd un o'r unigolion â rhaglen sy'n canolbwyntio ar anghenion dietegol tra bydd yr unigolyn arall ag anghenion ffitrwydd/gweithgaredd corfforol.

Hanes

CBAC

Miss M. Jones
Miss A. Griffiths
Mr. L. Powell

NODAU

Mae'r cwrs TAG UG/Safon Uwch yn annog ymgeiswyr i:-

- datblygu eu diddordeb a'u brwdfrydedd ynglŷn â hanes ynghyd â dealltwriaeth o'i werth cynhenid a'i arwyddocâd;
- caffael dealltwriaeth o hunaniaethau gwahanol o fewn cymdeithas a dirnadaeth o wahaniaethau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac ethnig trwy gyfrwng eu hastudiaeth o agweddau ar Hanes Prydain a gwledydd ar wahân i Brydain;
- meithrin eu dealltwriaeth o'r gorffennol trwy gael profiad o gwrs astudio eang a chydlynol;
- gwella eu hunain fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a meddylgar;
- meithrin eu gallu i ofyn cwestiynau perthnasol ac arwyddocaol ynglŷn â'r gorffennol ac ymchwilio'r cwestiynau hynny;
- caffael dealltwriaeth o natur astudiaeth hanesyddol, er enghraifft, bod hanes yn ymwneud â safbwyntiau a seiliwyd ar y dystiolaeth sydd ar gael ac y gall y safbwyntiau hynny newid;
- meithrin eu defnydd a'u dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a sgiliau hanesyddol;
- gwneud cysylltiadau a thynnu cymariaethau o fewn ac ar draws cyfnodau ac agweddau gwahanol o'r gorffennol;
- trefnu a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hanesyddol mewn ffyrdd gwahanol, gan ddadlau achos a dod i gasgliadau cadarnhaol.

Mae'r cwrs UG/Safon Uwch yn darparu astudiaeth gydlynol, foddhaol a gwerth chweil i bob myfyriwr un a fyddant, ai peidio, yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ymhellach.

Y FANYLEB

Mae'n ofynnol i'r myfyrwyr ymgymryd ag ASTUDIAETH O GYFNOD ac ASTUDIAETH FANWL. Mae'r Astudiaeth o Gyfnod yn canolbwyntio ar AGWEDDAU O HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1880-1980 ynghyd ag Astudiaeth Fanwl ar YR ALMAEN NATSÏAIDD, tua 1933-1945.

<u>Mae'r Astudiaeth o Gyfnod yn cynnwys yr unedau canlynol</u>:-

UNED HY1 (UG)

- **Cymru a Lloegr mewn cyfnod o newid, tua 1880-1929** sy'n cynnwys amodau byw ac amodau gwaith, tua 1880, Diwygiadau'r Rhyddfrydwyr, 1906-1914, Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar y Ffrynt Cartref, Yr economi a'r gymdeithas ym Mhrydain yn y 1920au a'r Newid yn rôl y Menywod.
- **Polisi tramor Prydain tua 1902 – 1939** sy'n cynnwys Rôl Prydain yn y cyfnod a arweiniodd at y Rhyfel Mawr, Rôl Prydain yn Y Rhyfel Mawr a'r Cynadleddau Heddwch, Polisi tramor Prydain yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel, a dechreuad yr Ail Ryfel Byd.
- **Gwleidyddiaeth Plaid, tua 1900-1940** sy'n cynnwys Y Blaid Geidwadol a'r Blaid Ryddfrydol cyn 1914, Esgyniad y Blaid Lafur, Y newid gwleidyddol rhwng 1919-1940, Esgyniad pleidiau lleiafrifol yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel a Phwysigrwydd y Llywodraeth Genedlaethol yn y 1930au.

UNED HY4 (Safon Uwch)

- **Dirwasgiad a Chaledi, 1929-1951** sy'n cynnwys effaith economaidd y1930au, effaith Blynyddoedd y Dirwasgiad, Sut yr effeithiodd yr Ail Ryfel Byd ar fywyd ar y Ffrynt Cartref, a Diwygiadau'r llywodraethau Llafur, 1945-1951.

- **Prydain ac Ewrop, tua 1880-1980** sy'n canolbwyntio ar y newid yn agweddau Prydain tuag at Ewrop hyd at 1914, y datblygiadau ym mholisi tramor Prydain yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel, a'r newid yn y berthynas rhwng Prydain ac Ewrop wedi 1945.

Mae'r Astudiaeth Fanwl yn cynnwys yr unedau canlynol:-

UNED HY2 (UG)

Arwyddocâd a chanlyniadau'r prif ddatblygiadau yn yr Almaen Natsïaidd hyd 1939

- Sefydlu'r unbennaeth Natsïaidd.
- Rôl propaganda, cyflyru a brawychu yn y Drydedd Reich.
- Ideoleg a pholisi cymdeithasol, crefyddol a hiliol y Natsïaid
- Rôl y blaid Natsïaidd yn y Drydedd Reich.
- Polisi economaidd y Natsïaid: adferiad ac ailarfogi.
- Polisi tramor y Natsïaid hyd 1939.

UNED HY3 (Safon Uwch)

- Y gwaith cwrs yn ymwneud â'r holocost i'w asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.

UNED HY4 (Safon Uwch)

Cefnogaeth, gwrthwynebiad a gwrthsafiad o fewn y Drydedd Reich, tua 1933-1945

- Y rhesymau dros y gefnogaeth a roddwyd i'r llywodraeth Natsïadd.
- Materion yn ymwneud â'r farn gyhoeddus.
- Cymhelliad y gwrthwynebiad a'r gwrthsafiad a maint hynny: o ran unigolion a grwpiau.
- Cynllwynion.
- Y rhyfel a'i effaith ar gefnogaeth y bobl.
- Y wladwriaeth Natsïaidd a'i hymateb i wrthwynebiad.

Mae HY4 yn asesu agweddau o'r Astudiaeth o Gyfnod a'r Astudiaeth Fanwl.

		Pwysiad o fewn UG	Pwysiad o fewn Safon Uwch
HY1	**Astudiaeth o Gyfnod**	**60%**	**30%**
HY2	**Astudiaeth Fanwl**	**40%**	**20%**

		Pwysiad o fewn U2	Pwysiad o fewn Safon Uwch
HY3	**Astudiaeth Fanwl**	**40%**	**20%**
HY4	**Astudiaeth o Gyfnod** **Astudiaeth Fanwl**	**40%** **20%**	**20%** **10%**

- MJ/08

Tystysgrif BTEC Lefel 3 a Diploma Atodol Edexcel mewn Lletygarwch

Mrs. I Spowage

Cymwysterau BTEC
Mae Cymwysterau Cenedlaethol BTEC yn gymwysterau Lefel 3 y QCF sydd wedi'u cynllunio i ddarparu cymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith arbenigol iawn mewn amrywiaeth o sectorau galwedigaethol. Maent yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

Pan fyddant yn cwblhau cymhwyster BTEC cenedlaethol yn llwyddiannus, gall ddysgwr symud ymlaen i gyflogaeth neu o fewn cyflogaeth, a/neu barhau i astudio yn yr un maes galwedigaethol neu faes cysylltiedig.

Mae Cymwysterau Cenedlaethol BTEC yn derbyn pwyntiau UCAS.

Cymwysterau Cenedlaethol BTEC mewn Lletygarwch
Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyflogaeth yn y diwydiant lletygarwch wedi cynyddu'n gyflymach na'r economi.

Mae'r Cymwysterau Cenedlaethol BTEC mewn Lletygarwch wedi'u datblygu yn y diwydiant Lletygarwch i:

- Roi cyfle i ddysgwyr llawn amser ddechrau cyflogaeth yn y diwydiant lletygarwch neu i symud ymlaen i gymwysterau galwedigaethol, fel y Cymwysterau Uwch BTEC Edexcel mewn Rheoli Lletygarwch;
- Rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau, sgiliau personol a nodweddion sy'n hanfodol ar gyfer perfformiad llwyddiannus mewn bywyd gweithio.

Asesu a Graddio
Nid oes arholiadau, ac mae pob uned yng Nghymwysterau Cenedlaethol BTEC yn cael eu hasesu'n fewnol trwy amrywiaeth o ddulliau e.e.:

- Gwaith ymarferol – cynllunio bwydlenni a pharatoi prydau
- Trafodaethau wedi'u recordio
- Llyfrau log, dyddiaduron ayb
- Cyflwyniadau
- Arsylwi ar berfformiad
- Datganiadau tystion
- Chwarae rôl
- Adroddiadau
- Ymchwiliadau ysgrifenedig
- Ffotograffau wedi'u hanodi
- Paratoi deunydd cyhoeddusrwydd
- Profiad sy'n gysylltiedig â gwaith

Mae gan bob uned o fewn y cymhwyster meini prawf penodol ar gyfer asesu a graddio. Gwobrwyir pas, clod neu ragoriaeth i ddysgwyr ar gyfer pob uned. Mae'r graddau hyn yn cyfateb i bwyntiau.

Gwobrwyir gradd pas, clod neu ragoriaeth ar gyfer y cymhwyster i ddysgwyr trwy gasglu'r pwyntiau a geir trwy gyflawni unedau unigol.

Tystysgrif Lefel 3 (Blwyddyn 12)
Mae'r Dystysgrif BTEC Lefel 3 30-credyd yn cyfateb i un TAG Lefel UG. Mae'n cynnwys tair uned:

Y Diwydiant Lletygarwch
Nod yr uned yw i alluogi i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant lletygarwch, y systemau dosbarthu a'r safonau a ddefnyddir a threfniadaeth a strwythur busnes lletygarwch.

Bwyd Ewropeaidd
Nod yr uned hon yw i alluogi i ddysgwyr gael gwybodaeth am yr offer, y nwyddau a'r dulliau sydd eu hangen i baratoi a choginio bwyd Ewropeaidd, arddulliau o fwyd a'r mathau o brydau a grëir yn Ewrop, ac i ddatblygu sgiliau mewn paratoi, coginio ac adolygu prydau Ewropeaidd.

Bwyd y Byd Modern
Nod yr uned hon yw i alluogi dysgwyr i gael gwybodaeth am y nwyddau a ddefnyddir mewn bwyd modern ac i ddatblygu sgiliau i gynllunio bwydlenni, paratoi, coginio, cyflwyno ac adolygu prydau byd modern.

Diploma Atodol Lefel 3 (Blwyddyn 13)
Mae'r Cymhwyster Atodol Lefel 3 BTEC 60-credit yn cyfateb ag un Lefel U TAG. Mae'n cynnwyd yr unedau ychwanegol canlynol:

Egwyddorion Goruchwylio Perfformiad Gwasanaethau Cwsmer mewn Lletygarwch, Hamdden, Teithio a Thwristiaeth
Bydd yr uned hon yn darparu gwybodaeth fanwl o sut i oruchwylio perfformiad gwasanaethau cwsmer yn y sector lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth. Bydd yr uned yn briodol i oruchwylwyr a rheolwyr y mae eu cyfrifoldeba'n cynnwys rheoli staff.

Darparu Gwasanaeth Gwsmer mewn Lletygarwch
Nod yr uned hon yw i alluogi i ddysgwyr gael dealltwriaeth o rôl cyfathrebu, cyflwyno a gwaith tîm mewn gwasanaeth cwsmer ac i ddatblygu sgiliau gwasanaeth cwsmer mewn lletygarwch.

Cynllunio a Rheoli Digwyddiad Lletygarwch
Nod yr uned yw i alluogi i ddysgwyr gael gwybodaeth am nodweddion digwyddiadau yn y diwydiant lletygarwch ac i gael sgiliau i lunio cynnig ar gyfer digwyddiad yn seiliedig ar client brief, cynllunio, cynnal ac adolygu digwyddiadau.

Sgiliau a Thechnegau Uwch mewn Cynhyrchu Pwdinau a 'Petits Fours'
Nod yr uned hon yw i alluogi i'r ymgeisydd ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o egwyddorion cynhyrchu pwdinau poeth, oer ac wedi'u rhesi a 'petits fours' a 'friandises'. Y pwyslais yn yr uned hon yw i ddatblygu cywirdeb, cyflymder a rheolaeth mewn sgiliau sy'n bodoli eisoes, ac i ddatblygu technegau ar lefel uwch.

Mathemateg

OCR

Mr. P. Ward
Mr. D. Howard
Mrs. M. Stonefield
Mr. M. Williams

Cwrs Blwyddyn 12 : Cwrs UG Mathemateg

Cynnwys: Astudir 3 modiwl yn ystod y flwyddyn.
Craidd Mathemateg 1, arholir ym mis Ionawr, yna arholir Craidd Mathemateg 2 ac un ai Ystadegaeth 1 neu Fecaneg 1 ym mis Mai neu ym mis Mehefin gan arwain at dystysgrif UG mewn Mathemateg ar ddiwedd blwyddyn 12, ac yn dilyn astudiaeth bellach, Mathemateg Bellach ar ddiwedd blwyddyn 13. Mae'r elfen Fecaneg yn fwy addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd Ffiseg.

Cyflwynir Craidd Mathemateg trwy 3 gwers yr wythnos ac addysgir yr elfen gymhwysol trwy 2 wers yr wythnos trwy gydol y flwyddyn.

Addasrwydd
Mae'r cwrs yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd wedi sicrhau o leiaf Gradd B mewn TGAU ac yn ddelfrydol, dylent fod wedi dilyn haen uwch y cwrs. Dengys profiad mae'r radd hon yw'r isafswm ac fel arfer bydd gradd uwch yn tueddu i arwain at ganlyniadau gwell. Ystyrir cyrsiau Mathemateg ar y lefel hon y mwyaf anodd a thrwm.

Mae Mathemateg yn bwnc sy'n cyfuno'n dda gyda nifer o bynciau ond mae'n cyfuno'n arbennig o dda gyda Gwyddoniaeth, yn arbennig Ffiseg a Daearyddiaeth. Hwyrach y byddwch yn edrych am fwy o ehangder wrth ddewis eich pynciau ac os hynny, gellwch gyfuno gydag unrhyw bwnc y mae'r colofnau dewis yn caniatáu. Mae'n ddarpariaeth ddefnyddiol ar gyfer amryw o gyrsiau gradd, yn arbennig Ffiseg, Peirianneg, Electroneg, Meddygaeth, Milfeddygaeth, Electroneg a nifer o bynciau eraill.

Cwrs Blwyddyn 13: Cwrs U2 Mathemateg

Cynnwys: Ymgymerir â 3 modiwl pellach:
Craidd Mathemateg 3 (arholir ym mis Ionawr), Craidd Mathemateg 4 ac un ai Ystadegaeth 2 neu Fecaneg 2, arholir ym mis Mai neu fis Mehefin.

Cyflwynir Craidd Mathemateg trwy 4 gwers yr wythnos ac addysgir yr elfen gymhwysol yn ystod 2 wers yn wythnosol trwy gydol y flwyddyn.

Addasrwydd
Unrhyw un sydd wedi perfformio'n ddigon da yn y cwrs UG ac sydd ddigon hyderus i ymgymryd â cham pellach yn y pwnc. Mae'n debyg y byddwch wedi penderfynu erbyn hynny pa gwrs gradd yr ydych am ei wneud ac mae'n bosibl y bydd hynny yn ffactor dylanwadol o ran eich penderfyniad.

Cerddoriaeth

CBAC

Mrs. Elin Non Ennis
Mr. Andrew Mantle

Mae'r cwrs hwn yn cynnig amrediad arbennig o gyfoethog ac amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys perfformio, cyfansoddi a gwerthuso. Mae'n annog dysgu gydol oes ac yn darparu mynediad i yrfaoedd yn gysylltiedig â cherddoriaeth. Bydd y cwrs yn cyfrannu tuag at asesiad o sgiliau allweddol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gwella dysgu a pherfformiad personol, Gweithio gydag eraill a Datrys Problemau.

Mae'r cwrs UG yn cynnwys 3 uned:
MU1 Perfformio 30% (Asesiad Allanol)
Unawd a/neu/ berfformiad ensemble

- Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 8 – 10 munud
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio dewisedig
- Asesiad gan arholwr allanol

MU2 Cyfansoddi 30% (Asesiad Mewnol)
Dau ddarn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 4 ac 8 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
- Un cyfansoddiad rhydd
- I'w asesu gan yr athro a'i safoni'n allanol

MU3 Gwerthuso 40% (Asesiad Allanol)
Un papur gwrando mewn dwy ran

- Rhan 1: (24%): prawf **gwerthuso** 1 awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) o'r ddau faes astudio a ddewiswyd
- Rhan 2: (16%): Prawf 1 awr **dirnadaeth glywedol** (arddywediad melodig, cyweirnodau, cordiau, diweddebau), yn seiliedig ar ddyfyniadau cerddorol heb eu paratoi

3 Uned ychwanegol ar gyfer y cwrs Safon Uwch:
Naill ai MU4 (A) Perfformio 30% (Asesiad Allanol)
Unawd a/neu/ berfformiad ensemble

- Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 10 – 12 munud
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio newydd (Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif)
- Asesiad gan arholwr allanol

Neu MU4 (B) Perfformio 40% (Asesiad Allanol)
Unawd a/neu/ berfformiad ensemble

- Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 16 – 18 munud
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio newydd (Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif)
- Dylai un darn adlewyrchu maes astudio arall
- Asesiad gan arholwr allanol

Naill ai MU5 (A) Cyfansoddi 30% (Asesiad Mewnol)
Dau ddarn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 6 a 10 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
- Un cyfansoddiad yn adlewyrchu'r maes astudio newydd (Cerddoriaeth yr 20^{fed} a'r 21^{ain} ganrif)
- I'w asesu gan yr athro a'i farcio'n allanol

Neu MU5 (B) Cyfansoddi 40% (Asesiad Mewnol)
Tri darn gwrthgyferbyniol

- Dylai cyfanswm perfformio'r tri chyfansoddiad fod rhwng 12 a 18 munud o hyd

- Cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
- Un cyfansoddiad yn adlewyrchu'r maes astudio newydd (Cerddoriaeth yr 20fed a'r 21ain ganrif)
- Un cyfansoddiad rhydd arbrofol
- I'w asesu gan yr athro a'i farcio'n allanol

Naill ai MU6 (A) Gwerthuso 30% (Asesiad Allanol)
Un arholiad ysgrifenedig mewn **dwy** ran (2 ¼ awr)

- Rhan 1: (12%): arholiad **gwrando** ¾ awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth anghyfarwydd o'r 20fed a'r 21ain ganrif
- Rhan 2: (18%): arholiad **gwrando / ysgrifenedig** 1 ½ awr yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi darn gosod a'i osod mewn cyd-destun cerddorol ehangach

Neu MU6 (B) Gwerthuso 40% (Asesiad Allanol)
Un arholiad ysgrifenedig mewn **tair** rhan (3 awr)

- Rhan 1: (12%): arholiad **gwrando** ¾ awr yn seiliedig ar ddyfyniadau o gerddoriaeth anghyfarwydd o'r 20fed a'r 21ain ganrif
- Rhan 2: (18%): arholiad **gwrando / ysgrifenedig** 1 ½ awr yn gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi darn gosod a'i osod mewn cyd-destun cerddorol ehangach
- Rhan 3: (10%): arholiad **ysgrifenedig** ¾ awr yn gofyn i ymgeiswyr arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arddull gyffredinol a chynnyrch un o gyfansoddwyr y gweithiau gosod

Technoleg Cerddoriaeth

Edexcel
Mr. Andrew Mantle

Mae Technoleg Cerddoriaeth yn chwarae rhan allweddol mewn cerddoriaeth ledled y byd. Mae'r cwrs hwn yn annog myfyrwyr, gan gynnwys y myfyrwyr na sy'n chwarae offeryn cerdd traddodiadol, i archwilio eu cerddoroldeb a chreu deunydd gwreiddiol trwy ddefnyddio technoleg. Bydd yn cyflwyno myfyrwyr i'r sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gweithio yn y diwydiant technoleg cerddoriaeth, gan ddatblygu eu sgiliau ymarferol a'u gallu i wrando'n ddadansoddol i gerddoriaeth.

Ceir 2 uned yn y cwrs UG:
Uned 1: Portffolio Technoleg Cerddoriaeth: un 70% (Asesiad Allanol)
Rhaid i'r myfyrwyr gyflawni 3 tasg:

- Tasg 1A: Perfformiad Sylweddedig wedi'i Ddilyniannu
- Tasg 1B: Recordiad Aml-drac
- Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol

Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno CD sain o dan y pennawd 'Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1' yn cynnwys tri thrac o waith fel y dynodwyd uchod. Byddant hefyd yn cyflwyno llyfr log i gynnwys gwybodaeth am yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn ogystal â chwestiynau sydd wedi'u hasesu ar gyfer y Trefniant wedi'i Ddilyniannu'n Greadigol.

Uned 2: Gwrando a Dadansoddi: 30% (Asesiad Allanol)

- Arholiad gwrando o 1 awr 45 munud yn ystod tymor yr Haf.

Bydd yr uned hon yn darparu cyfle i'r myfyrwyr astudio'r dulliau mwyaf cyffredin o ran cerddoriaeth boblogaidd. Astudir datblygiad dulliau cerddoriaeth boblogaidd o 1910 hyd at y cyfnod presennol. Bydd 2 ddull arbennig yn cael eu hastudio'n fwy manwl a disgwylir i'r myfyrwyr feddu ar wybodaeth ehangach a dealltwriaeth o'r cyd-destun.

A.G.

(Manylion i'w cadarnhau)

Ffiseg

OCR (Manyleb A)

Mrs. J. Owen
Mr. M. Williams

Mae astudio ffiseg yn ddefnydd gwerthfawr o amser ond gall agor drysau hefyd i nifer o yrfaoedd posibl, megis electroneg, cyfrifiaduraeth, pob cangen o beirianneg a dylunio, offthalmoleg, pensaernïaeth, daeareg, daearyddiaeth, meddygaeth, milfeddygaeth, y gyfraith - mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Bydd myfyrwyr yn astudio agweddau o ffiseg y maent yn gyfarwydd â hwy ond yn fwy manwl a gyda mwy o bwyslais ar gymhwyso ffiseg i'r byd ffisegol. Mae mwy o le ar y lefel hon i waith ymarferol ar gyfer unigolion ynghyd â datrys problemau. Ehangir y syniadau a gyflwynwyd yn ystod lefel TGAU a bydd cyfle i astudio meysydd newydd. (Ar ddiwedd y cwrs ffiseg, bydd y myfyrwyr yn gallu egluro maint atomau a sut y gall y ceiliogod rhedyn allyrru seiniau o'u coesau.)

Ceir cyfres o arholiadau ymarferol byr i brofi sgiliau ymarferol trwy gydol y cwrs UG ac U2. Bydd penawdau'r cwrs UG yn cynnwys grymoedd a mudiant, electronau, tonnau a ffotonau. Archwilir y penawdau hyn o fewn 2 fodiwl. Yn ystod y cwrs U2, datblygir nifer o'r syniadau a amlygwyd yn ystod y cwrs UG o fewn y modiwl Newtonaidd. Hefyd, bydd y myfyrwyr yn astudio ffiseg niwclear, ffiseg feddygol a chosmoleg yn ystod yr ail fodiwl 'Meysydd, Gronynnau a Ffiniau Ffiseg'. Er nad yw'n angenrheidiol fod myfyrwyr yn astudio cwrs UG Mathemateg, bydd angen iddynt fod yn gymwys yn y pwnc hyd at lefel uwch TGAU neu byddant yn cael problemau i ddeall a dehongli hafaliaid wrth ddatrys problemau.

Mae manylion pellach o gynnwys a strwythur y cwrs ar gael oddi wrth eich athro Ffiseg a bydd yn barod iawn i drafod Ffiseg o fewn y Chweched Dosbarth.

Rhydd y tabl isod ganlyniadau'r cyrsiau UG ac U2 yn y ddwy flynedd flaenorol:

Gradd	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**U**
Nifer	**5**	**8**	**10**	**5**	**0**	**0**

Addysg Grefyddol

CBAC

Miss H. Williams

Bydd myfyrwyr yn astudio dau fodiwl. Bydd y modiwlau UG yn darparu cyflwyniad i'r:

- Cysyniadau allweddol a therminoleg;
- Pobl arwyddocaol, traddodiadau neu fudiadau lle bo'n briodol;
- Prif faterion a chwestiynau
- Perthnasoedd ac agweddau eraill o brofiadau dynol

Yn y Safon Uwch, bydd pob modiwl U2 wedi'i lunio er mwyn hybu cynnydd a datblygiad o'r safon UG o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r myfyrwyr. Bydd y Modiwl Synoptig gorfodol yn darparu cyfle i'r myfyrwyr ymchwilio i brofiad dynol o ddau neu fwy o bersbectifau crefyddol gan arddangos eu sgiliau ymchwilio a'u gallu i ddwyn ynghyd gwahanol elfennau o'u hastudiaeth o'r cwrs.

Bydd y ddau fodiwl rhagarweiniol canlynol yn cael eu hastudio ar gyfer y lefel UG:

1. Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd a chyflwyniad i Brofiad Crefyddol: Cyfriniaeth
25% - Papur ysgrifenedig - 1¼ awr – 90 marc

Mae'r modiwl hwn yn darparu cyfle i astudio themâu athronyddol sylfaenol yn cynnwys materion sy'n codi o brofiadau dynol o ddrygioni a dioddefaint. (Gosodir pedwar cwestiwn. Disgwylir i'r myfyrwyr ateb unrhyw ddau gwestiwn traethawd strwythuredig. Bydd yr un nifer o farciau am bob cwestiwn).

2. Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg
25% - Papur ysgrifenedig - 1¼ awr – 90 marc

Bydd yr opsiwn hwn yn darparu cyfle i astudio gwahanol ymagweddau o ran adnabod a datrys materion moesol o bwys mewn profiad dynol, o dan y penawdau:

a) Damcaniaeth Foesegol:
   i) Deddf Naturiol Aquinas
   ii) Moeseg Sefyllfa : Joseph Fletcher
   iii) Iwtilitariaeth : Bentham a Mill

b) Moeseg Gymhwysol: Perthnasoedd Rhywiol

(Gosodir pedwar cwestiwn. Disgwylir i'r myfyrwyr ateb dau gwestiwn traethawd strwythuredig. Bydd yr un nifer o farciau am bob cwestiwn).

Safon Uwch – U2

RS3 – 25% - Papur ysgrifenedig - 1¾ awr

1. Astudiaethau Athroniaeth a Chrefydd

Mae'r opsiwn hwn yn darparu cyfle i fyfyrwyr wneud astudiaeth bellach o athroniaeth crefydd drwy archwilio rhai themâu athronyddol cymhleth, gan gynnwys:

- A yw ffydd grefyddol yn rhesymol?
- A yw iaith grefyddol yn ystyrlon?
- A yw ffydd grefyddol yn gydnaws â thystiolaeth wyddonol ac a ydym yn 'fodau rhydd'?

2. Crefydd a'r Profiad Dynol

RS4 (Gorfodol) - Papur ysgrifenedig **-** 1¾ awr

Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth

- Gwahanol gredoau am natur a phwrpas:
  1. bywyd,
  2. marwolaeth
  3. bywyd ar ôl marwolaeth
  - e.e. Wedi ein creu neu'n gynnyrch siawns, sancteiddrwydd bywyd, deuoliaeth, materoliaeth, delfrydiaeth, atgyfodiad, ailymgnawdoliad, aileni, anfarwoldeb yr enaid.
- Dysgeidiaeth, ysgrifeniadau a damcaniaethau penodol am natur a phwrpas bywyd a bywyd ar ôl marwolaeth.
- Arwyddocâd credoau crefyddol am fywyd ar ôl marwolaeth yn yr unfed ganrif ar hugain.
- I ba raddau mae cred mewn bywyd ar ôl marwolaeth yn dylanwadu ar y ffordd mae person yn byw ei fywyd.
- I ba raddau mae cred mewn bywyd ar ôl marwolaeth yn hanfodol i grefydd.
- A oes tystiolaeth ddigonol dros gred mewn bywyd ar ôl marwolaeth.

Mae'r modiwlau'n cynnig cyfle i gyfrannu i ddealltwriaeth agweddau moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y dwysedd gofynnol gan fyfyrwyr UG yn llai na'r hyn sy'n ofynnol gan fyfyrwyr y Safon

Uwch. Yn y lefel UG, disgwylir i'r myfyrwyr arddangos ystod o wybodaeth a dealltwriaeth gyda rhywfaint o astudiaeth fanwl. Disgwylir i fyfyrwyr y Safon Uwch arddangos ystod ehangach o wybodaeth a mwy o ddealltwriaeth fanwl o'r deunydd ynghyd â'r gallu i wneud cysylltiad rhwng ystod ehangach o destunau gan gynnal dadl sy'n adlewyrchu cymhlethdodau'r agweddau.

Cymraeg Ail Iaith

CBAC

Mr. S. Mason
Mrs B. Hiscocks

Y Cwrs

Mae Maes Llafur y Safon Uwch Gyfrannol yn heriol ac yn flaengar. Mae'n cynnig amrywiaeth ac yn parhau'r rhaglen a ddechreuwyd yn CA4. Pwysleisir yr elfen lafar fel arfer wrth gwrs.

Blwyddyn 12

Uned CA1	**Uned CA2**	**Uned CA3**
Arholiad Llafar mewn grwpiau gydag arholwr allanol.(tua ½ awr) Ymgeiswyr yn siarad am y ffilm 'Hedd Wyn' ac am y cyfryngau Cymraeg.	*Gwaith Cwrs Ysgrifenedig (2000 – 3000 o eiriau) Ymgeiswyr yn cynhyrchu 'Pecyn Gwybodaeth' sy'n cynnwys 4 darn o ysgrifennu gwahanol.*	*Arholiad Ysgrifenedig (2 awr)* *(i) tasgau gramadeg* (ii) *cwestiynau ar 7 cerdd a astudiwyd*
20%	15%	15%

Blwyddyn 13

Uned CA4	**Uned CA5**	**Uned CA6**
Arholiad Llafar mewn grwpiau gydag arholwr allanol. (tua 45 munud) Ymgeiswyr yn siarad am y ddrama 'Siwan', am y cyfryngau Cymraeg ac yn asesu'r cwrs yn synoptig.	*Arholiad Ysgrifenedig (2 awr)* (i) cwestiynau ar storïau byrion Mihangel Morgan 'Saith Pechod Marwol' (ii) Trawsieithu – ymgeiswyr yn ysgrifennu llythyr Cymraeg yn ymateb i erthygl Saesneg	*Arholiad Ysgrifenedig (2 awr)* (i) tasgau gramadeg (ii) cwestiynau ar 7 cerdd arall a astudiwyd
20%	15%	20%

Pam parhau â'r Gymraeg yn CA5?

Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyfle gwell byth i ddisgyblion i fynd â'u Cymraeg ymhellach am flwyddyn arall o leiaf. Gyda mwy o swyddi yng Nghymru yn gofyn am siaradwyr Cymraeg, mae'r Uwch Gyfrannol yn gymhwyster defnyddiol iawn. Yn ogystal, mae'n gwrs llawn cyfle cael hwyl. Ceir disgyblion yn cynhyrchu pecyn gwybodaeth ar unrhyw bwnc o'u dewis nhw.

Cymraeg Iaith Gyntaf

CBAC

Mr. S. Mason
Miss N. Macmillan

Cwrs bywiog yw hwn sy'n cynnig i'r myfyrwyr y cyfle i ymdrin yn hyderus yn y Gymraeg. Y mae'r niferoedd yn cynyddu bob blwyddyn ac ein nod yw parhau gyda'r llwyddiant hyn.

Y Cwrs
Rhennir y cwrs i dair rhan ac y maent oll yn datblygu agwedd wahanol:
- Y Ffilm a'r ddrama Gymraeg – Arholiad Llafar – 20%
- 2 dasg greadigol a 2 dasg ffeithiol – Gwaith Cwrs – 15%
- Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif – Arholiad Ysgrifenedig – 15%

Ffilm a Drama
Yn yr uned hon, bydd y myfyrwyr yn astudio un ffilm ac un ddrama ysgrifenedig. Byddant yn trafod yn yr arholiad llafar y gwaith hyn gan fynegi eu barn arnynt a'u cymharu. Bydd cyfle iddynt ddysgu termau beriniadaethol a datblygu eu sgiliau Llenyddol TGAU.

Gwaith Cwrs
Y mae cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau creadigol a ffeithiol yn ysgrifenedig. Bydd cyfle iddynt sgriptio darnau llenyddol ac ysgrifennu'n greadigol. Byddant yn datblygu eu sgiliau iaith ymhellach drwy gyflwyno darnau ffeithiol yn ogystal. Uned ymestynedig ddiddorol yw hon.

Arholiad Ysgrifenedig
Arholiad 3 awr ble bydd y myfyrwyr yn arddangos eu gwybodaeth am farddoniaeth Cymraeg a rheolau Gramadeg. Bydd cyfeiriadaeth bellach o'u gwaith TGAU yma, a'r cyfle i ddadansoddi gweithiau barddonol diweddaraf.

Datblygir y sgiliau ymhellach ym mlwyddyn 13 gyda'r cwrs Uwch Gyfrannol. Astudir tair uned yno hefyd:
- Nofel – Arholiad llafar – 15%
- Chwedlau, Cywyddau a'r Hengerdd – Arholiad Ysgrifenedig – 15%
- Defnyddio Iaith a Gwerthfawrogi – Arholiad Ysgrifenedig – 20%

Nofel
Datblygir sgiliau trafod y myfyrwyr yn yr uned hon drwy fanyleb ar y gwaith gorfodol drwy drafod syniadau, themâu a datblygiad cymeriadau.

Chwedlau Cymraeg a Hen Farddoniaeth
Uned ddiddorol iawn yw hon ble mae'r myfyrwyr yn dadansoddi hen weithiau llenyddol yn y Gymraeg ac yn eu gwerthfawrogi o ran cynnwys ac arddull.

Defnyddio iaith a gwerthfawrogi
Datblygiad pellach o'u gwaith yn y flwyddyn gyntaf yw'r uned hon. Canolbwyntir yn llwyr yma ar sgiliau gwerthfawrogi'r myfyrwyr a'u gallu i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o arddulliau rhyddiaethol a barddonol.

Yn sicr, cewch olwg arall ar y Gymraeg trwy astudio'r cwrs hwn.

Y Llyfrgell

Yr Agoriad
Wedi'i hagor yn swyddogol gan Gillian Clarke, Bardd Cenedlaethol Cymru, ddydd Iau, 13eg Tachwedd 2008, mae'r Llyfrgell yn ganolbwynt i'n hysgol.

Rydym ni - y disgyblion a'r staff yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yn ymfalchïo yn ein Llyfrgell sydd wedi'i hail-leoli ac wedi'i ehangu fel bo ei swyddogaeth wedi esblygu yn ystod y flwyddyn er mwyn diwallu anghenion y disgyblion a'r staff.

Mae'r Llyfrgell wedi'i dodrefnu ar gyfer cyflenwadau'r llyfrgell, dau fwrdd mawr crwn, meinciau o gwmpas y waliau, cadeiriau esmwyth a byrddau coffi. Rhydd y trefniant hwn ddewis helaeth o ran trefniadaeth yr ystafell er mwyn diwallu'r amryw weithgareddau a gynhelir o fewn y llyfrgell.

Dathlwyd y Llyfrgell newydd eleni gyda chwistrelliad da o lyfrau ffeithiol newydd a ddewiswyd gan yr holl staff wedi iddynt gymryd awgrymiadau defnyddiol y disgyblion i ystyriaeth.

Swyddogaeth ein Llyfrgell:
- Man astudio'r Chweched Dosbarth a chanolfan wybodaeth
- Storfa Prosbectysau Colegau a Phrifysgolion
- Ystafell ddarllen
- Ystafell addysgu
- Ystafell gyflwyniadau
- Ystafell gweld ffilmiau
- Canolfan Gwobrau Dug Caeredin

Rhai o'r gweithgareddau a gynhaliwyd ac sydd ar y gweill ar gyfer 2009:
- Gwrandawiad gyda …….
- Cyfarfod y Grŵp Llyfrgelloedd Ysgol (Pwyllgor Llywio Cymru) o dan adain *CILIP* (Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Proffesiynol)
- Cwrs Hyfforddi ar gyfer llyfrgellwyr ysgol a drefnwyd gan Mrs. Esther Sargeant a *CILIP*
- Cyfarfodydd Llywodraethwyr yr Ysgol
- Cyfarfodydd Cyngor yr Ysgol
- Dadleuon agored gan Gymdeithasau Trafod
- Cyfarfodydd Ffrindiau'r Ysgol
- Canolfan Gwobrau Dug Caeredin
- Ffair Lyfrau
- Darlleniadau'r staff a sesiynau dweud stori

Gwrandawiadau
Pan agorwyd ein Llyfrgell gan Gillian Clarke, cynhaliodd wrandawiad yn y Llyfrgell, yn garedig iawn, gyda disgyblion ledled yr ysgol pryd y cyflwynodd ddarlleniadau barddoniaeth ynghyd â'i syniadaeth ar fywyd.

Dyna'r cyntaf a gynhaliwyd o safbwynt ein 'Rhaglen Wrandawiad gyda…'. Estynnir gwahoddiad i arbenigwyr yn eu maes i ddod i'r ysgol i siarad â'r disgyblion ac egluro eu brwdfrydedd, diddordeb a'u/neu eu gyrfa, un ai'n wleidyddiaeth, cyfansoddi caneuon, bywyd gwyllt, gwledydd sy'n datblygu, cynaladwyedd, llywio awyrennau, y Celfyddydau ac yn y blaen.

Mae nifer o'r gwrandawiadau hyn eisoes wedi'u cynnal pryd yr estynnwyd croeso i:
Jack Harris, canwr/cyfansoddwr, cyn ddisgybl ac yn raddedig o Rydychen.
Martin Darlington, Peilot Ambiwlans Awyr Cymru.
Dau o Bencampwyr Brec-ddawnsio o Dde Cymru.

Y Llyfrgell
Mae bywyd dyddiol ein Llyfrgell yn amrywio; weithiau gwelir athro'n eistedd wrth fwrdd yn addysgu grŵp astudio bychan o ddisgyblion y chweched dosbarth tra bydd athro arall yn dod â dosbarth o 20 o ddisgyblion iau sy'n dysgu sut i ddefnyddio'r llyfrgell ar gyfer gwaith ymchwil neu drafodaeth dosbarth cyfan mewn lleoliad helaeth.
Mae'n bosibl yr anfonir grwpiau bychain o ddosbarth i astudio barddoniaeth neu hanes o dan wyliadwriaeth y llyfrgellydd, tra bydd aelodau unigol y chweched dosbarth yn dilyn eu hastudiaethau UG ac U2 mewn tawelwch.

Mae gan y disgyblion fynediad llawn i'r Llyfrgell yn ystod amser chwarae ac amser cinio pan fwynhânt ddarllen, yn unigol neu mewn grwpiau, gan ddewis llyfrau a chyfarfod ag eraill gyda diddordebau tebyg. Gallant hefyd fenthyg a dychwelyd llyfrau.
Gwirfoddolodd nifer o'r disgyblion i weithredu fel monitoriaid llyfrgell gan drefnu'r llyfrau, ysgrifennu cystadlaethau cwisiau llyfrgell, trafod ac argymell llyfrau i'w gilydd ac i'r llyfrgellydd.
Ymgymerwyd â hyd yn oed mwy o gyfrifoldeb gan aelodau'r chweched dosbarth a byddant yn ysgwyddo ac yn cynorthwyo'r llyfrgellydd yn gyson o ran catalogio'r llyfrau ac o ran rheolaeth y llyfrgell yn gyffredinol o ddydd i ddydd.

Gwybodaeth Ysgol Gyfan
Mae'r Llyfrgell newydd yn ganolbwynt i fywyd diwylliannol yr ysgol. Mae'n gartref i daflenni o Theatrau, Canolfannau Celf ac Amgueddfeydd ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys papurau newydd lleol a chenedlaethol, cyfnodolion a chylchgronau.
Hefyd, mae'r Llyfrgell yn lleoliad i Goeden Nadolig yr Ysgol sy'n weladwy i bawb o'r tu mewn ac allan.

Ffenestri Lliw Tai'r Eisteddfod. Yn ystod cyfnod yr Eisteddfod, dyrennir un o bedair ffenestr y Llyfrgell i bob Tŷ – Jones, Pritchard, Sayce ac Evans. Addurnir y ffenestri gyda baner o liw'r Tŷ a gall ddisgyblion rannu gwybodaeth am weithgareddau eu Tai trwy gynnwys hysbysiadau sy'n weladwy o'r tu allan.

Y Dyfodol
Edrychwn ymlaen at ffyniant a datblygiad parhaol ein Llyfrgell mewn cyfuniad ag anghenion newidiol y disgyblion, eich plant, o fewn ein hysgol.

Esther Sargeant

Addysg Gysylltiedig â Gwaith

Mae Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn rhan annatod a hanfodol o raglen Bagloriaeth Cymru. Gall fod yn yr Unol Daleithiau, Ewrop neu'r Deyrnas Unedig. Bydd y myfyrwyr yn derbyn canllawiau i'w galluogi i ddewis lleoliadau priodol ond mae profiad gwaith yn broses a ddewisir yn hollol gan y myfyrwyr. Bydd angen i'r myfyrwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain; bydd angen iddynt ddarparu CVs, llythyron cais a mynychu cyfweliadau lle bo angen. Yn ychwanegol, disgwylir iddynt drefnu eu llety a/neu gludiant eu hunain os na fydd y lleoliadau gwaith yn lleol.

Bydd angen i fyfyrwyr y Fagloriaeth Gymreig gwblhau o leiaf 30 awr o Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac er mwyn diwallu'r gofynion hyn, bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn lleoliad mewn bloc o wythnos yn ystod mis Hydref o Flwyddyn 12. Yn y blynyddoedd blaenorol, mwynhaodd myfyrwyr y Chweched Dosbarth amryw brofiadau gwaith tra'n ymweld â gwledydd eraill. Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r lleoliadau profiad gwaith canlynol yn cael eu cynnig i ddarpar fyfyrwyr y Chweched Dosbarth:

LLEOLIAD	**DYDDIADAU**
Y Deyrnas Unedig	Mis Hydref
Virginia, Unol Daleithiau America	Mis Hydref
Delaware, Unol Daleithiau America	Mis Hydref
Ewrop	Gwanwyn

Yn ogystal, bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen wythnosol o Gyfranogiad Cymunedol. Mae hynny'n nodwedd annatod o Fagloriaeth Cymru.